Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil cymdeithasol: 124/2025

Dyddiad Cyhoeddi: 16/12/2025

# Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020: Synthesis Tystiolaeth a Data

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-836-8

Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020: Synthesis Tystiolaeth a Data.

Awduron: Merryn Tully, Kerry KilBride, Joseff Howells, Mariana Fikry, Lili Thomas | Miller Research Ltd.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Tully, M., KilBride, K., Howells, J., Fikry, M. a Thomas, L. (2025). Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020: Synthesis Tystiolaeth a Data. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 124/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/bil-plant-diddymu-amddiffyniad-cosb-resymol-cymru-2020-adroddiad-synthesis

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Victoria Seddon
Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant
Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

research.childrenandfamilies@gov.wales

## Cynnwys

Geirfa ....................5
1. Cyflwyniad ....................6
1.1. Cyd-destun rhyngwladol ....................6
1.2. Cefndir a chyd-destun y ddeddfwriaeth yng Nghymru ....................6
1.3. Yr adolygiad ôl-weithredu tair blynedd o'r ddeddfwriaeth yng Nghymru ....................8
1.4. Strwythur yr adroddiad ....................9
2. Methodoleg ....................11
2.1. Matrics llenyddiaeth a fframwaith dadansoddol ....................11
2.2. Data craidd a thystiolaeth ymchwil ....................11
2.3. Cyfyngiadau ....................14
3. Canfyddiadau ....................16
3.1. Canfyddiadau cyn gweithredu'r Ddeddf yng Nghymru ....................16
3.2. Ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yng Nghymru. ....................17
3.3. Agweddau at gosbi corfforol ....................28
3.4. Effaith ar wasanaethau cyhoeddus ....................33
3.5. Safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid ....................43
4. Casgliadau ....................45
Cyfeiriadau ....................48
Atodiad: Ystyriaethau o ran chwiliad llenyddiaeth ehangach ....................48

### Ffigurau

Ffigur 1: Sut byddech chi'n disgrifio eich dealltwriaeth o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020? Gorffennaf 2025 i Awst 2025 ....................19
Ffigur 2: Canran sy'n credu bod y gyfraith ar hyn o bryd yn caniatáu i rieni gosbi eu plant yn gorfforol (Pob un- 2018, 2019, 2020, 2021, Mawrth 2022, Tachwedd 2022, Tachwedd 2023, Tachwedd 24) ....................21
Ffigur 3: Canran sy'n ymwybodol o newid mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pob un- 2018, 2019, 2020, 2021, Mawrth 2022, Tachwedd 2022, 2023, 2024) ....................23
Ffigur 4: Barn ynghylch a yw rhieni a gofalwyr eraill yn cael cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, Hydref 2024 a Mawrth 2025 i Ebrill 2025 (canran) (pob un ac yn ôl grŵp blwyddyn ysgol) ....................25

Ffigur 5: Ymwybyddiaeth o'r gyfraith sy'n ei gwneud yn anghyfreithlon cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, Hydref 2024 a Mawrth 2025 i Ebrill 2025 (canran) (pob un ac yn ôl grŵp blwyddyn ysgol)....26
Ffigur 6: Canran sy'n cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pob un - 2018, 2019, 2020, 2021, Mawrth 2022, Tachwedd 2022, 2023) ....30
Ffigur 7: Canran sy'n cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio (cosbi plentyn yn gorfforol)'. (Pob un a pha un a ydynt yn ofalwr rheolaidd i blentyn 7 oed neu iau - Tachwedd 2024) ....31
Ffigur 8: I ba raddau (os o gwbl) y mae'r Ddeddf wedi effeithio ar lwyth gwaith staff eich sefydliad wrth iddi ddod i rym? Gorffennaf 2025 i Awst 2025....37
Ffigur 9: I ba raddau y mae llwybrau atgyfeirio rhwng asiantaethau wedi gwella oherwydd y Ddeddf? Gorffennaf 2025 i Awst 2025 ....39
Ffigur 10: A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw hyfforddiant, gwybodaeth neu arweiniad sydd ar gael i bobl yn eich proffesiwn mewn ymateb i'r Ddeddf? (e.e. canllawiau ymarfer, fideos, taflenni, cyrsiau) Gorffennaf 2025 i Awst 2025 ....41

# Geirfa

**Cafcass Cymru**

Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru

**CPS**

Gwasanaeth Erlyn y Goron

**FTE**

Cyfwerth ag amser llawn

**NFA**

Dim camau pellach

**Y tu allan i'r llys / Datrysiadau y tu allan i'r llys / Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys (OOCPS)**

Mae Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys (OOCD), fel Penderfyniadau Cymunedol a Rhybuddion Amodol, yn cynnig dewis arall yn lle erlyn am droseddau llai difrifol drwy ganolbwyntio ar adsefydlu drwy amodau fel mynychu cwrs neu gymryd rhan mewn ymyriadau eraill. Yn yr adroddiad hwn, mae'n cyfeirio'n benodol at Gymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys, sy'n ei gwneud yn ofynnol i rieni ymgysylltu â chymorth rhianta plant fel amod datrys.

**PIR**

Adolygiad ôl-weithredu

**RCPCH**

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

**Y Ddeddf**

Mae'n cyfeirio at Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, sy'n ei gwneud yn anghyfreithlon i unrhyw un gosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru, drwy ddileu'r amddiffyniad cyfreithiol o "gosb resymol".

**CCUHP**

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r Ddeddf yn cyd-fynd ag Erthygl 19 CCUHP, sy'n amddiffyn plant rhag pob math o drais.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Cyd-destun rhyngwladol

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a gadarnhawyd yn y DU ym 1991, yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n amlinellu hawliau sylfaenol pob plentyn. Roedd Cymru ar flaen y gad ymysg gwledydd y DU o ran gwreiddio CCUHP mewn cyfraith ddomestig drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae Erthygl 19 CCUHP yn ymrwymo Partïon Gwladwriaethol i gymryd camau i amddiffyn plant rhag trais.

Hyd yma, mae 67 o wledydd ledled y byd wedi gwahardd pob math o gosbi plant yn gorfforol, gyda 27 arall wedi ymrwymo i ddiwygio, gan ddangos symudiad byd-eang tuag at warchodaeth gyfreithiol gryfach i blant (Sefydliad Iechyd y Byd, 2025).

Mae canllawiau rhyngwladol, gan gynnwys gan gyrff fel UNICEF a'r Fenter Fyd-eang i Roi Terfyn ar Gosbau Corfforol, yn pwysleisio'n gyson bod gwaharddiad cyfreithiol yn fwyaf effeithiol o'i gyfuno ag addysg gyhoeddus a mentrau rhianta cadarnhaol sydd â'r nod o newid normau cymdeithasol ynghylch disgyblaeth.

Yn gyffredinol, mae'r dirwedd gyfreithiol ryngwladol sy'n esblygu yn adlewyrchu consensws cynyddol bod diogelu plant rhag cosb gorfforol yn rheidrwydd moesol a chyfreithiol, sy'n gofyn nid yn unig am ddiwygio deddfwriaethol ond hefyd am addysg barhaus a newid diwylliannol (McGuier EA, Kolko DJ, Dubowitz H, 2022).

## 1.2. Cefndir a chyd-destun y ddeddfwriaeth yng Nghymru

Cafodd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Ddeddf') Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2020 ac ar ôl cyfnod gweithredu o ddwy flynedd, daeth i rym ar 21 Mawrth 2022. Roedd hyn yn cyflawni ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Amcan cyffredinol y ddeddfwriaeth yw helpu i amddiffyn hawliau plant drwy wahardd cosbi plant yn gorfforol, drwy ddileu'r amddiffyniad cosb resymol. Mae hyn yn golygu nad yw'r amddiffyniad bellach ar gael yng Nghymru i rieni na'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis (gweithredu gyda chyfrifoldeb rhiant), fel amddiffyniad i gyhuddiad o ymosodiad cyffredin a churo plentyn yn eu gofal.

Mae cyflwyno'r Ddeddf yn gam sylweddol ymlaen yn ymrwymiad Cymru i gynnal hawliau plant dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Drwy wneud pob math o gosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru, mae'r Ddeddf yn cysoni deddfwriaeth ddomestig â safonau rhyngwladol ac yn cefnogi uchelgais ehangach Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae'r Ddeddf yn cyfrannu at ymrwymiadau deddfwriaethol a pholisi ehangach Cymru, gan gynnwys Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol o dan egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae Deddf

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwahaniaethu rhwng cosbi corfforol ac esgeuluso neu gam-drin plant, ac mae'n sefydlu dull partneriaeth cadarn ac effeithiol cryfach o ddiogelu. Gyda'i gilydd, mae hyn yn atgyfnerthu dull ataliol sy'n seiliedig ar hawliau o ymdrin â hawliau a lles plant a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

I gefnogi datblygiad y Ddeddf, datblygodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) (Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru gynt) ddulliau posibl o ddeddfu yn erbyn cosb gorfforol gan rieni, gan bwysleisio bod newid cyfreithiol yn fwyaf effeithiol ochr yn ochr â chynllunio gweithredu clir, addysg gyhoeddus barhaus a chymorth rhianta cadarnhaol. Pwysleisiodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru hefyd fod union eiriad y gyfraith yn bwysig; er enghraifft, mae dewisiadau ynghylch sut yr ymdrinnir ag erlyniadau yn effeithio ar barodrwydd y cyhoedd i'w derbyn a pha mor glir y bydd y gyfraith yn gweithredu'n ymarferol (Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, 2018).

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus aml-gyfrwng helaeth cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith. Er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol, rhieni a'r cyhoedd i ddeall y newid yn y gyfraith, datblygodd Llywodraeth Cymru amrywiaeth o adnoddau esboniadol. Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth i aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol gan gynnwys taflenni sydd ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd, ffilmiau byr o farn gweithwyr proffesiynol, poster, nodyn briffio a thaflenni ffeithiau sy'n benodol i'r sector.

Bu Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda sefydliadau partner, fel Plant yng Nghymru, i ddatblygu adnoddau sydd â'r nod o helpu i gefnogi gweithwyr proffesiynol i gyfathrebu â phlant a theuluoedd am y newid yn y gyfraith (Llywodraeth Cymru, 2025a). Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r gyfraith a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni am ddewisiadau cadarnhaol eraill yn lle cosbi corfforol, drwy ddull cyfathrebu TEULU Cymru sy'n cysylltu â'r ymgyrch Magu Plant: Rhowch amser iddo.

Datblygiad allweddol arall oedd cyflwyno'r Cynllun Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys (OOCPS). Rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2025, darparodd Llywodraeth Cymru hyd at £2.4 miliwn o gyllid i alluogi rhieni i gael gafael ar gymorth a chyngor magu plant pwrpasol fel dewis arall yn lle erlyn o dan y Ddeddf, gan helpu i sicrhau bod yr ymateb i gosb gorfforol yn gymesur ac yn canolbwyntio ar newid ymddygiad yn hytrach na throseddoli (Llywodraeth Cymru, yn y wasg). Mae hyn yn cael ei ddarparu drwy wasanaethau awdurdodau lleol ac mae'n cyd-fynd â rhaglenni presennol sy'n darparu cymorth i rieni fel Dechrau'n Deg a Rhaglen Plant Iach Cymru. Mae awdurdodau lleol yn aml yn cynnwys gweithwyr cymorth rhianta y tu allan i'r llys mewn gwasanaethau cymorth i deuluoedd presennol a sefydlu canolfannau gwybodaeth i addasu a rhannu adnoddau'n lleol.

## 1.3. Yr adolygiad ôl-weithredu tair blynedd o'r ddeddfwriaeth yng Nghymru

O dan delerau'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiadau ar effeithiau'r newidiadau deddfwriaethol dair blynedd a phum mlynedd ar ôl eu rhoi ar waith.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Miller Research ym mis Mawrth 2025 i gynnal synthesis o dystiolaeth a data sy'n ymwneud â'r Ddeddf.

Cytunodd Gweinidogion Cymru a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ffocws yr adolygiad ôl-weithredu yn ystod hynt y ddeddfwriaeth; mae'n canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- effaith ar wasanaethau cyhoeddus
- ymwybyddiaeth o'r gyfraith
- agweddau at gosbi corfforol
- safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid

Mae'r adroddiad hwn, sy'n nodi'r adolygiad ôl-weithredu 3 blynedd (PIR), yn cyfuno'r dystiolaeth sydd ar gael ar y pwynt tair blynedd. Bydd yr adolygiad interim hwn yn sail i'r adolygiad ôl-weithredu 5 mlynedd statudol, a fydd yn cael ei gynnal yn 2027.

Diben y synthesis hwn yw nodi, asesu ac integreiddio ymchwil a data presennol sy'n berthnasol i weithredu'r Ddeddf yn y meysydd hyn. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth a gynhyrchwyd neu a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal ag astudiaethau a gynhaliwyd gan sefydliadau ac ymchwilwyr allanol. Nid yw'r adolygiad yn ceisio asesu effaith y Ddeddf ar ganlyniadau datblygiadol neu lesiant plant, sy'n parhau y tu allan i'r cwmpas diffiniedig. Fel gydag enghreifftiau rhyngwladol eraill o ddeddfwriaeth debyg, bydd effaith lawn y Ddeddf yn cymryd amser i ddod i'r amlwg, a byddai'n amhriodol cynnal gwerthusiad o effaith y Ddeddf ar hyn o bryd.

Mae'r synthesis yn defnyddio amrywiaeth eang o ddata a ffynonellau ymchwil, gan gynnwys data gweinyddol, data arolwg, a data a gasglwyd o gyfweliadau a grwpiau ffocws a gynhaliwyd drwy brosiectau ymchwil. Mae'r data gweinyddol yn cynnwys data monitro cynllun Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys, data Gwasanaethau Cymdeithasol (yn benodol y metrigau sy'n canolbwyntio ar gosb gorfforol), data ffeiliau achos Gwasanaethau Erlyn y Goron ar erlyniadau a data gan Heddluoedd yng Nghymru, lle bo hynny ar gael.

Mae data'r arolwg yn cynnwys data am wybodaeth ac ymwybyddiaeth plant o ddeddfwriaeth cosbi corfforol, data ar ymwybyddiaeth oedolion o ddeddfwriaeth cosbi corfforol ac agweddau tuag at y ddeddfwriaeth hon mewn data o 8 ton o'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn arolwg Omnibws Cymru Beaufort, data o Arolwg Cenedlaethol Cymru, data o arolwg y Panel Amser i Siarad sy'n cael ei gynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws addysg, iechyd, trosedd a chyfiawnder, y trydydd sector a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r setiau data a'r

astudiaethau hyn gyda'i gilydd yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o weithrediad ac effeithiau cynnar y Ddeddf ledled Cymru yn unol â'r meysydd a nodir ar gyfer yr adolygiad ôl-weithredu tair blynedd.

Cynhaliwyd y synthesis hwn gan ddefnyddio dulliau tryloyw, systematig y gellir eu hailgynhyrchu yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU (Y Llyfr Gwyrdd, Y Llyfr Magenta, a'r Llyfr Gwyrddlas). Roedd hyn yn sicrhau bod pob cam o'r dadansoddiad yn bodloni safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer tryloywder, ailgynhyrchu a sicrhau ansawdd. Mae'n darparu trosolwg cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio polisi ac ymarfer, ar yr un pryd â nodi unrhyw fylchau yn y data a/neu'r dystiolaeth y gellid eu hystyried fel cyfleoedd ar gyfer ymchwil pellach, ochr yn ochr â'r gwaith parhaus o gasglu data a thystiolaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad ôl-weithredu 5 mlynedd terfynol.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r holl ddata a thystiolaeth sydd ar gael i'r tîm ymchwil ar adeg cwblhau'r synthesis (Tachwedd 2025) ar gyfer cyfnod yr adolygiad (Mawrth 2022 i Mawrth 2025). Mae rhywfaint o'r data y cyfeirir ato yn y synthesis wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i'r awduron ar gyfer cynhyrchu'r synthesis cyn cyhoeddi adroddiad llawn ar y data hwn, a fydd yn dilyn maes o law. Pan fo hynny'n wir, nodir hynny yn yr adroddiad.

Bydd unrhyw ymchwil neu ddata ychwanegol a fydd yn cael eu rhyddhau wedyn yn cael eu hymgorffori yn yr adolygiad ôl-weithredu 5 mlynedd statudol. Nodir dyddiadau cyhoeddi'r ffynonellau allweddol yn adran methodoleg yr adroddiad.

## 1.4. Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i drefnu i'r adrannau canlynol:

- cyflwyniad: mae'n amlinellu diben, cwmpas a chyd-destun deddfwriaethol yr astudiaeth
- methodoleg: mae'n disgrifio'r dull a ddefnyddiwyd i ganfod, adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf a'i heffeithiau
- ymwybyddiaeth o'r Ddeddf: mae'n archwilio lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymysg grwpiau allweddol, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr, a phlant
- agweddau tuag at gosbi corfforol: mae'n archwilio agweddau tuag at gosbi corfforol, credoau ynghylch ei dderbynioldeb, a barn am y Ddeddf
- effaith ar wasanaethau cyhoeddus: mae'n asesu sut mae'r Ddeddf wedi effeithio ar wasanaethau cyhoeddus dair blynedd ar ôl cyflwyno'r Ddeddf, gan gynnwys unrhyw newidiadau mewn atgyfeiriadau, llwythi gwaith neu batrymau darparu gwasanaethau
- safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid: mae'n crynhoi safbwyntiau gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaethau ar sut mae'r Ddeddf wedi cael ei rhoi ar waith yn ymarferol

- casgliadau: mae'n crynhoi canfyddiadau allweddol yr astudiaeth synthesis

# 2. Methodoleg

## 2.1. Matrics llenyddiaeth a fframwaith dadansoddol

Roedd yr adolygiad tystiolaeth hwn yn gofyn am ddatblygu matrics llenyddiaeth strwythuredig, a oedd yn darparu fframwaith ar gyfer nodi a chategoreiddio themâu ac is-themâu perthnasol ar draws y ffynonellau. Roedd y themâu trosfwaol yn cynnwys:

- effaith ar wasanaethau cyhoeddus
- ymwybyddiaeth o'r gyfraith
- agweddau at gosbi corfforol
- safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid

Gan ddefnyddio'r fframwaith hwn, nodwyd 47 o ffynonellau llenyddiaeth drwy ddull 'pelen eira', lle cafodd rhestrau cyfeirio o fewn ffynonellau sylfaenol eu hadolygu i ddod o hyd i ragor o ddeunyddiau perthnasol. Yna cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth ehangach o lenyddiaeth academaidd a llwyd[1] gan ddefnyddio termau chwilio allweddol. Dadansoddwyd y ffynonellau hyn gan ddefnyddio meddalwedd mapio meddwl Miro, gan alluogi trefnu tystiolaeth yn weledol a nodi themâu trawsbynciol, a oedd wedyn yn sail i strwythur yr adroddiad. Mae'r synthesis hwn hefyd yn adeiladu ar y dystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o Femorandwm Esboniadol y Ddeddf, a gyhoeddwyd yn 2020. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr, a oedd yn cynnwys cymhwysedd deddfwriaethol, amcanion polisi a diben y Ddeddf ac adolygiad o'r ymgynghoriad cyhoeddus a lansiwyd ym mis Ionawr 2018. Mae'r synthesis hefyd yn ceisio defnyddio gwybodaeth o ffynonellau a data a gyhoeddwyd yn fwy diweddar.

## 2.2. Data craidd a thystiolaeth ymchwil

Yn ystod y synthesis, darparodd Llywodraeth Cymru restr gynhwysfawr o ddata a thystiolaeth ymchwil bresennol, yn deillio'n bennaf o'r gweithgareddau monitro a gwerthuso a amlinellir yn Adran 10 Memorandwm Esboniadol y Ddeddf (Llywodraeth Cymru, 2020).

Roedd hyn yn cynnwys:

- Arolwg Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru o fis Chwefror 2024. Rhwng 1 Chwefror a 3 Mawrth 2024, cwblhaodd 1,261 o bobl yr arolwg a chafodd y data ei bwysoli i adlewyrchu demograffeg y boblogaeth genedlaethol. Cyhoeddwyd y canfyddiadau ym mis Ebrill 2024.
- canlyniadau 8 ton y cwestiynau yn arolwg Omnibws Cymru Beaufort Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol. Cafodd ton ddiweddaraf yr ymchwil hon ei

Troednodiadau

[1]Llenyddiaeth lwyd yw deunydd ac ymchwil a gynhyrchir gan sefydliadau y tu allan i'r sianeli cyhoeddi a dosbarthu masnachol neu academaidd traddodiadol.

rhyddhau ym mis Mehefin 2025; fodd bynnag, cyfeiriwyd at ganfyddiadau'r 8 ton fel rhan o'r astudiaeth hon

- adroddiad a gynhyrchwyd yn fewnol gan Lywodraeth Cymru sy'n dadansoddi Data arolwg Deall Cymdeithas, sy'n archwilio'r berthynas rhwng dulliau magu plant, cosbi corfforol, a chanlyniadau datblygiad plant, gan gynnwys newidiadau rhwng 2012 a 2022 a'r gwahaniaeth rhwng grwpiau demograffig. Cyhoeddwyd hwn ym mis Mehefin 2025

- canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar agweddau'r cyhoedd at gosbi plant yn gorfforol (2019 i 2025). Mae'r data wedi'i gynnwys yn y dangosydd canlyniadau a gyhoeddwyd ym mis Awst 2025

- cyfres o ddata monitro ar gyfer Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol (Cymru) 2020: Ebrill 2022 i Fawrth 2025 - Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys Awdurdodau Lleol. Cyhoeddwyd y datganiad diweddaraf ar gyfer Ebrill 2024 i Fawrth 2025 ym mis Medi 2025

- canlyniadau Arolwg Omnibws Plant Beaufort - Ymwybyddiaeth plant o ddeddfwriaeth cosbi corfforol a hawliau plant. Rhyddhawyd canfyddiadau'r adroddiad hwn ym mis Medi 2025 ac maent yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddwy don o ddata arolwg a gynhaliwyd gyda phlant a phobl ifanc rhwng 7 a 18 oed sy'n byw yng Nghymru

- canfyddiadau astudiaeth ymchwil ansoddol, a oedd yn cynnwys 40 o gyfweliadau lled-strwythuredig gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ar draws iechyd, addysg, troseddu a chyfiawnder, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn ogystal â 135 o ymatebion i arolwg ar-lein o weithwyr proffesiynol. Roedd yr ymchwil hwn yn edrych ar y ffyrdd y mae cyflwyno'r Ddeddf wedi effeithio ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen gyda phlant a theuluoedd. Cynhaliwyd yr ymchwil gan Miller Research yn ystod haf 2025 a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn 2026.

- monitro data ar nifer y cysylltiadau gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a nifer yr asesiadau a gwblhawyd gan y gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol. Cyflwynwyd y metrigau hyn fel rhan o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae gweithgarwch Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei gasglu ers mis Ebrill 2021, flwyddyn cyn i'r Ddeddf ddod i rym

- monitro data gan Wasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru ar nifer yr achosion sy'n ymwneud â'r Ddeddf sy'n cael eu cyfeirio atynt, yn ogystal â faint o'r achosion hyn sy'n arwain at gyhuddo, a chanlyniadau'r achosion hyn

- monitro data gan Cafcass Cymru ar nifer y ceisiadau cyfraith breifat ers mis Ebrill 2020

- allbynnau model sydd wedi'i ddylunio a'i gynnal gan Lywodraeth Cymru i ganfod achosion o gosbi plant yn gorfforol gan ddefnyddio data gan heddluoedd yng Nghymru

Gyda'i gilydd, mae'r ffynonellau data hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth gychwynnol gadarn sy'n cwmpasu safbwyntiau agweddol, ymddygiadol a sefydliadol, gan alluogi asesiad cynhwysfawr o weithredu cynnar.

### 3.2.2 Protocol ymchwil ar gyfer adolygiad llenyddiaeth ehangach

Yn ogystal â'r data craidd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, nododd, dadansoddodd a chyfosododd y tîm ymchwil astudiaethau ansoddol a meintiol pellach a oedd yn mynd i'r afael â themâu allweddol yr astudiaeth synthesis ehangach. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil ar y canlynol:

- effaith ar wasanaethau cyhoeddus
- ymwybyddiaeth o'r gyfraith
- agweddau at gosbi corfforol
- safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid

Cynhaliwyd chwiliadau llenyddiaeth ar draws cronfeydd data academaidd, llenyddiaeth y llywodraeth a llenyddiaeth lwyd (gan gynnwys adroddiadau Llywodraeth Cymru a sefydliadau anllywodraethol), ffynonellau cyfiawnder cyfreithiol a throseddol (fel cyhoeddiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron, adroddiadau'r heddlu, a chronfeydd data cyfraith achosion), yn ogystal â sylwebaeth prif ffrwd ar y cyfryngau a pholisïau. Mae manylion y termau chwilio ar gael yn yr Atodiad.

Cafodd yr holl ffynonellau eu sgrinio yn erbyn y meini prawf diffiniedig canlynol ar gyfer cynnwys ac eithrio:

- wedi’u cynnwys:
    - astudiaethau a adolygwyd gan gymheiriaid
    - gwerthusiadau polisi
    - astudiaethau achos rhyngwladol perthnasol
- wedi’u heithrio:
    - darnau mynegi barn
    - ffynonellau heb gefnogaeth empirig

Roedd y broses hon yn sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth yn adlewyrchu'r deunydd mwyaf perthnasol a chredadwy a oedd ar gael.

### 3.2.2 Sicrhau ansawdd

Roedd y synthesis yn glynu wrth safonau sicrhau ansawdd trylwyr i sicrhau bod y canfyddiadau'n gywir, yn dryloyw ac yn atgynyrchadwy. Yn ogystal â defnyddio meini prawf cynnwys ac eithrio a bennwyd ymlaen llaw, sgriniwyd pob cofnod llyfryddol ar gyfer dyddiad cyhoeddi, nodau astudio, methodoleg, canlyniadau a dibynadwyedd cyffredinol.

Yn nhîm yr astudiaeth synthesis, cynhaliodd 2 aelod ddadansoddiad thematig annibynnol i wella hygrededd, gyda mewnbwn pellach gan y tîm ehangach i fireinio a chyfnerthu themâu sy'n dod i'r amlwg. Adolygwyd pob cam o'r broses (strategaeth chwilio, sgrinio, echdynnu data, a synthesis) gan uwch aelod o dîm yr astudiaeth er mwyn sicrhau cywirdeb a chyflawnder.

Dadansoddwyd yr holl ddata meintiol gan ddefnyddio Microsoft Excel, a chefnogwyd synthesis ansoddol drwy Miro.[2]

Cafodd canfyddiadau sylfaenol eu profi a'u mireinio drwy weithdy crynodol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, gan roi cyfle i drafod gwybodaeth o'r adolygiad gyda swyddogion i lywio gwaith ac ymchwil parhaus.

Roedd y protocol ymchwil strwythuredig hwn yn galluogi'r synthesis i gael ei gynnal mewn modd diduedd y gellir ei atgynhyrchu, gan ddarparu sylfaen dystiolaeth glir ar gyfer polisi ac ymarfer a sefydlu sylfaen ar gyfer yr adolygiad ôl-weithredu 5 mlynedd.

## 2.3. Cyfyngiadau

Dylid nodi rhai cyfyngiadau o ran y data craidd a'r dystiolaeth a ddarparwyd, gan gynnwys:

- nid yw data ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf, Ebrill 2024 i Mawrth 2025, ar gael eto ar gyfer nifer y cysylltiadau a nifer yr asesiadau a gwblhawyd gan wasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol. Bwriedir rhyddhau'r data hwn yn unol ag amserlen Ystadegau Swyddogol y Llywodraeth ar gyfer y cyfnod ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn
- derbyniwyd data a ddefnyddiwyd i ddatblygu model heddluoedd Llywodraeth Cymru gan 3 o'r 4 heddlu yng Nghymru

O ran yr adolygiad llenyddiaeth ehangach, dylid nodi sawl cyfyngiad:

- cyfyngiadau mynediad: efallai na fu peth llenyddiaeth academaidd ar gael oherwydd rhwystrau tanysgrifio neu waliau talu. Defnyddiodd y synthesis ffynonellau eilaidd rhad ac am ddim lle bynnag y bo modd
- tuedd cyhoeddi: mae astudiaethau sydd â chanfyddiadau strategol ansylweddol neu nwl yn llai tebygol o gael eu cyhoeddi, gan arwain o bosibl at orgynrychiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol
- manylder y canfyddiadau: ni ddadgyfunodd llawer o astudiaethau ganlyniadau yn ôl grŵp demograffig penodol (e.e. oedran, grŵp economaidd-gymdeithasol), gan gyfyngu ar y gallu i ddod i gasgliadau ar gyfer y poblogaethau hyn

Er gwaethaf y rhain, arweiniodd y strategaeth chwilio at gorff eang ac amrywiol o lenyddiaeth yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant, a oedd yn aml yn cyrraedd pwynt dirlawn,

---

Troednodiadau

[2] Ni ddefnyddiwyd offer dadansoddol seiliedig ar AI

gyda chyfuniadau gwahanol o dermau chwilio yn dychwelyd yr un ffynonellau. Mae'r cydgyfeirio hwn ar draws astudiaethau a chwiliadau yn cynyddu hyder yn nilysrwydd canfyddiadau'r adolygiad o dystiolaeth.

Mae'r synthesis yn adlewyrchu'r holl ddata a thystiolaeth sydd ar gael sy'n berthnasol i'r cyfnod gweithredu hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025 fel yr oeddent ar gael i'r tîm ymchwil. Bydd unrhyw ddiweddariadau dilynol neu ddatganiadau data newydd yn cael eu hymgorffori yn yr adolygiad ôl-weithredu 5 mlynedd statudol.

# 3. Canfyddiadau

## 3.1. Canfyddiadau cyn gweithredu'r Ddeddf yng Nghymru

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru a defnyddiodd arolwg o garfan fawr a chynrychiadol yn y DU a oedd yn edrych ar y berthynas rhwng dulliau magu plant/cosb gorfforol a chanlyniadau datblygiad plant, fod gostyngiad cyffredinol yn y defnydd o gosbi corfforol a gofnodwyd gan rieni rhwng 2012 a 2022.

Casglodd yr arolwg ddata ar y defnydd a gofnodwyd o 4 dull gwahanol o fagu plant. Dyma'r arddulliau magu plant: awdurdodaidd (llym, galw mawr am ufudd-dod); di-hid (disgwyliadau isel a chynhesrwydd isel); goddefgar (disgwyliadau isel a chynhesrwydd uchel), ac awdurdodol (disgwyliadau uchel a chynhesrwydd uchel). Dangosodd canfyddiadau'r ymchwil fod gan ddulliau magu plant awdurdodaidd a di-hid oblygiadau mwy negyddol i blant o ran allanoli problemau[3], ymddygiad rhag-gymdeithasol, a gwrthdaro â rhieni, o'i gymharu â dulliau awdurdodol a goddefgar. Canfu'r astudiaeth fod effeithiau negyddol ar ganlyniadau datblygiadol plant yn gryfach ac yn fwy cyson i famau sy'n mabwysiadu dull rhianta awdurdodaidd neu ddi-hid, o'i gymharu â thadau.

Yn ogystal, mae lefelau uwch o gosbi corfforol yn gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth i ddatblygiad plant. Ar gyfer allanoli problemau ac ymddygiad rhag-gymdeithasol, dim ond i famau yr oedd yr effaith hon yn ystyrlon. Fodd bynnag, roedd cosbi corfforol yn ymwneud â mwy o wrthdaro a gofnodwyd gan blant â rhieni, canfuwyd hyn ar gyfer mamau a thadau (Llywodraeth Cymru, 2025b).

Roedd rhai gwahaniaethau yng nghyfran gyffredinol y rhieni a ddywedodd eu bod yn defnyddio cosb gorfforol, er enghraifft:

- roedd rhieni o grwpiau ethnig Du neu Asiaidd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol o'i gymharu â'r rheini o grwpiau ethnig Gwyn
- roedd rhieni rhwng 31 a 40 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol o'i gymharu â rhieni 51 oed neu hŷn

Amlygodd yr ymchwil hon hefyd fod y berthynas rhwng rhianta awdurdodol a chanlyniadau cadarnhaol o ran datblygiad plant yn fwy amlwg i famau. I dadau, roedd yr effeithiau'n llai amlwg ac yn ymwneud yn bennaf â rhianta goddefgar. Canfu canfyddiadau'r astudiaeth hon hefyd fod rhianta awdurdodol yn llawer mwy cyffredin mewn mamau nag mewn tadau (Llywodraeth Cymru, 2025b).

Mae'r canfyddiadau hyn yn ddefnyddiol i dynnu sylw at effeithiau negyddol cosb gorfforol ar gyfer amrywiaeth o ganlyniadau datblygiad plant a hefyd i ddangos rhagfarnau a thueddiadau ar sail rhyw. Maent hefyd yn darparu rhagor o dystiolaeth sylfaenol ar gyfer

---

Troednodiadau

[3] Mae set ddata Understanding Society yn diffinio problemau allanoli plant fel 'anawsterau ymddygiadol camaddasol wedi'u cyfeirio at amgylchedd unigolyn'. Yn yr arolwg, mae problemau allanoli plant yn cael eu sgorio gan ymatebwyr ar sail problemau ymddygiad a gofnodwyd (e.e., celwyddau neu dwyllo yn aml) a gorfywiogrwydd (e.e. aflonydd, gorfywiog, methu aros yn llonydd yn hir).

lefelau cyffredinol o gosbi corfforol a adroddwyd gan rieni yn y 10 mlynedd cyn Deddf Plant yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi cyd-destun pellach i werthuso newidiadau mewn agweddau yn dilyn y newid yn y gyfraith.

Atgyfnerthir hyn ymhellach gan ganfyddiadau arolwg Cosbi Corfforol gan Rieni: Canlyniadau ac Agweddau Plant, a gyhoeddwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn 2018, a oedd yn awgrymu bod llawer o bobl ifanc yng Nghymru yn ystyried bod cosbi corfforol yn peri gofid emosiynol ac yn aml yn ei gysylltu â mynegiant o ddicter rhieni (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2018).

Mae'n ymddangos bod agweddau tuag at gosbi corfforol yn cael eu siapio gan brofiad personol: mae plant sydd wedi'i ddioddef yn fwy tebygol o'i ystyried yn dderbyniol, ac mae'r rhai heb brofiadau o'r fath yn tueddu i'w wrthod yn llwyr. Mae'r gwahaniaeth hwn yn tynnu sylw at sut gall profiadau bywyd normaleiddio neu herio canfyddiadau o drais mewn lleoliadau domestig.

At hynny, canfuwyd bod plant iau yn fwy goddefgar o gosb gorfforol na'u cymheiriaid hŷn[4] (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2018), sy'n dangos y gallai amlygiad yn ifanc ddadsensiteiddio plant i fathau corfforol o ddisgyblaeth. Mae'r canfyddiadau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac addysg i atal mewnoli ymddygiad treisgar fel arferion disgyblu derbyniol.

## 3.2. Ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yng Nghymru.

Mae'r adran nesaf hon o'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau ar ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yng Nghymru. Cyflwynir y canfyddiadau fesul grŵp cynulleidfa gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, y cyhoedd, rhieni/gofalwyr, a phlant.

### 3.2.1 Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymysg gweithwyr proffesiynol o'r Ddeddf yng Nghymru

Y brif ffynhonnell ddata ar gyfer archwilio ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o'r Ddeddf yng Nghymru yw'r ymchwil ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys 40 o gyfweliadau gyda gweithwyr proffesiynol, lle'r oedd pawb a gyfwelwyd yn nodi lefelau cynhwysfawr o ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'r rhesymeg y tu ôl i'r newid mewn deddfwriaeth yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, yn y wasg). Canfu'r ymchwil hwn fod gan weithwyr proffesiynol o feysydd iechyd, addysg, troseddu a chyfiawnder, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector ymwybyddiaeth gyffredinol bron o'r Ddeddf a'i hamcanion.  Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yr holl weithwyr proffesiynol a wahoddwyd i gael eu cyfweld yn ymwybodol

Troednodiadau

[4]Cyflwynodd papur Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ganfyddiadau o ddwy astudiaeth a ganfu fod plant iau yn fwy goddefgar o gosb gorfforol. Fodd bynnag, mae'r ystod oedran yn amrywio, gan fod Sherbert Research (2007) wedi diffinio plant iau fel plant rhwng 4 ac 8 oed, a phlant hŷn (‘tweens’) fel plant rhwng 9 a 12 oed a’r glasoed rhwng 13 ac 16 oed. Roedd yr ail astudiaeth gan Vittrup a Holden (2010) yn diffinio plant iau fel plant 6 i 7 oed a phlant hŷn fel plant 8 i 10 oed.


y byddent yn trafod y Ddeddf a'i rhesymeg a'i heffaith ac felly bod ganddynt wybodaeth flaenorol am ffocws yr ymchwil.

Nodwyd bod lleiafrif o weithwyr proffesiynol wedi cyfeirio at gydweithwyr yr oeddent yn awgrymu eu bod yn llai cyfarwydd â'r Ddeddf. Er enghraifft, efallai y bydd gan weithwyr iechyd proffesiynol nad ydynt yn gweithio'n rheolaidd gyda phlant ymwybyddiaeth fwy cyfyngedig o'r dystiolaeth sy'n sail i'r ddeddfwriaeth neu'r rhesymau dros ddileu amddiffyniad cosb resymol. Fodd bynnag, nid oedd y farn hon yn gyffredin ymysg gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn yr astudiaeth, a phwysleisiodd llawer fod gwaith cyfathrebu a chyhoeddusrwydd Llywodraeth Cymru wedi bod yn effeithiol o ran gwreiddio ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ar draws y gweithluoedd perthnasol.

Dywedwyd hefyd bod ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol o'r Ddeddf yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy'r rhyngweithio y gallent ei gael â rhieni a gofalwyr, plant a phobl ifanc. Felly, mae hyn yn golygu bod y cyngor a'r gwaith codi ymwybyddiaeth y gall y gweithwyr proffesiynol hyn ymgymryd ag ef yn eu rolau yn arbennig o arwyddocaol. I lawer o weithwyr proffesiynol, nodwyd bod dealltwriaeth o ddiben a goblygiadau'r Ddeddf yn gysylltiedig yn agos â chyfrifoldebau gwaith a diogelu presennol, sy'n golygu bod y Ddeddf yn cadarnhau'r negeseuon a'r arweiniad yr oedd gweithwyr proffesiynol eisoes yn eu darparu i'r cyhoedd cyn y Ddeddf (Llywodraeth Cymru, yn y wasg).

Fel rhan o'r astudiaeth ansoddol hon, cynhaliwyd arolwg ar-lein i ategu'r cyfweliadau manwl â gweithwyr proffesiynol. Pan ofynnwyd iddynt sgorio eu dealltwriaeth o'r Ddeddf, dywedodd 70% o'r gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn yr arolwg fod ganddynt ddealltwriaeth 'dda' neu 'dda iawn' o'r Ddeddf, gyda dim ond 6% yn dweud bod ganddynt ddealltwriaeth 'wael' neu 'wael iawn' o'r Ddeddf.

**Ffigur 1: Sut byddech chi'n disgrifio eich dealltwriaeth o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020? Gorffennaf 2025 i Awst 2025**




Ffynhonnell: Arolwg o weithwyr proffesiynol, Ymchwil Ansoddol gyda Gweithwyr Proffesiynol, C3.

Sylfaen: N134

Disgrifiad o Ffigur 1: Graff bar yn dangos barn gweithwyr proffesiynol am eu dealltwriaeth eu hunain o'r Ddeddf. Mae'n dangos patrwm clir o weithwyr proffesiynol yn dweud bod ganddynt ddealltwriaeth dda (40%) neu dda iawn (31%), o'i gymharu â dealltwriaeth gyfartalog (24%). Dim ond 5% ddywedodd fod eu dealltwriaeth yn wael ac 1% yn wael iawn.

Mae hyn felly'n dangos, er bod y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol wedi dweud eu bod yn deall y Ddeddf, bod rhai bylchau mewn ymwybyddiaeth yn parhau ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol nad ydynt yn gweithio gyda phlant fel mater o drefn. Gellid gwella hyn yn y dyfodol drwy fynediad at hyfforddiant gloywi i sicrhau bod gan bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd ddealltwriaeth gadarn o'r Ddeddf a'i goblygiadau i'w rôl.

### 3.2.2 Ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ymysg y cyhoedd yng Nghymru

Mae cyfoeth o dystiolaeth am ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yng Nghymru wedi'i chasglu hyd yma. Data arolwg yw'r ffynonellau data yn bennaf ond maent hefyd yn cynnwys rhai canfyddiadau o'r ymchwil ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol. Mae ffynonellau data'r arolwg yn cynnwys y data a gasglwyd yn arolwg Omnibws Beaufort Cymru, sy'n cynnwys cyfres amser o ddata ar draws 8 ton, data Arolwg Cenedlaethol Cymru sydd hefyd yn cynnwys cyfres amser o ddata, data Panel Iechyd Cyhoeddus Amser i Siarad ac arolwg Plant Cymru Beaufort gyda phlant a phobl ifanc.

Y brif ffynhonnell ddata a ddefnyddir mewn perthynas ag ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Ddeddf yng Nghymru yw'r arolwg o agweddau'r cyhoedd at gosbi plant yn gorfforol.[5] Mae hwn yn adrodd ar ganfyddiadau modiwl o gwestiynau a gafodd eu cynnwys yn Arolwg Omnibws Oedolion Cymru Beaufort sy'n dechrau yn 2018 (arolwg sylfaenol) ac sydd wedi cael eu hailadrodd yn flynyddol[6] ers hynny. Cynhaliwyd 8 ton o'r arolwg, gyda'r don ddiweddaraf ym mis Tachwedd 2024. Mae pob ton o'r arolwg wedi cynnwys sampl cwota cynrychioladol o tua 1,000 o oedolion 16 oed a hŷn ledled Cymru, gan gynnwys rhieni/gofalwyr a phobl nad ydynt yn rhieni/gofalwyr. Mae'r arolwg wedi defnyddio'r un cwestiynau'n fras bob blwyddyn sy'n ymwneud ag agweddau at gosbi corfforol, ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol ac ymwybyddiaeth a barn ar newidiadau i ddeddfwriaeth, yn ogystal â chwestiynau demograffig sy'n cofnodi oedran, rhyw, rhanbarth a gradd gymdeithasol.[7]

Ym mhob un o donnau'r arolwg, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn credu bod y gyfraith ar hyn o bryd yn caniatáu i rieni gosbi eu plant yn gorfforol. Dros y 7 mlynedd y cynhaliwyd yr arolwg, bu cynnydd cyffredinol yng nghyfran yr ymatebwyr sy'n credu nad yw'r gyfraith yn caniatáu i rieni gosbi eu plant yn gorfforol, gan gynyddu o 58% yn 2018 i 87% yn 2024.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn dros yr 8 ton yn dangos perthynas gadarnhaol rhwng ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus ac ymwybyddiaeth o'r Ddeddf. Dechreuodd ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus aml-gyfrwng ym mis Mehefin 2021 gyda hysbysebion digidol ac ymgyrchoedd teledu yn cael eu lansio'n llawn ym mis Medi 2021 ac uchafbwynt mewn gweithgarwch cyfathrebu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022. Mae hyn yn cyfateb i'r lefelau ymwybyddiaeth a ddangoswyd yn yr arolwg cyn i'r Ddeddf ddod i rym, gan gynyddu i’r lefel ymwybyddiaeth uchaf yn 2022 i 2023 ar 90%.

Dangosir y duedd hon yn ffigur 2.

---


Troednodiadau

[5] Cynhaliwyd arolwg 2018 a 2019 wyneb yn wyneb; o 2020 ymlaen, maent wedi cael eu cynnal ar-lein.

[6]Ac eithrio 2022, y flwyddyn y daeth y Ddeddf i rym, pan gynhaliwyd yr arolwg ym mis Mawrth a mis Tachwedd.

[7] Mae gradd gymdeithasol yn system ddosbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth y prif enillydd incwm ar yr aelwyd.

**Ffigur 2: Canran sy'n credu bod y gyfraith ar hyn o bryd yn caniatáu i rieni gosbi eu plant yn gorfforol (Pob un- 2018, 2019, 2020, 2021, Mawrth 2022, Tachwedd 2022, Tachwedd 2023, Tachwedd 24)**




Sylfaen: Pob un - 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000) Mawrth 2022 (1,000), Tachwedd 2022 (1,000), Tachwedd 2023 (1,000), Tachwedd 2024 (1,000)

Ffynhonnell: Agweddau cyhoeddus at gosbi corfforol Canfyddiadau arolwg Omnibws Cymru Beaufort Tachwedd 2018 i Tachwedd 2024

Disgrifiad o Ffigur 2

Mae ffigur 2 yn dangos canran y rheini sy'n credu bod y gyfraith ar hyn o bryd yn caniatáu i rieni gosbi eu plant yn gorfforol. Mae'r ffigur yn dangos tuedd gyffredinol o ganran uwch bob blwyddyn o bobl sy'n credu nad yw'r Ddeddf yn caniatáu i rieni gosbi eu plant yn gorfforol, ac eithrio 2024, pan fu gostyngiad bach.

Roedd data'r arolwg hwn hefyd yn datgelu bod oedolion iau rhwng 16 a 34 oed, o'u cymharu â grwpiau oedran eraill, yn llai tebygol o ddweud nad oedd y gyfraith yn caniatáu i rieni gosbi eu plant yn gorfforol. Ym mis Tachwedd 2022 a mis Tachwedd 2023, ymatebodd 85% o bobl ifanc 16 i 34 oed nad oedd y gyfraith yn caniatáu i rieni ddefnyddio cosb gorfforol, o'i gymharu â 93% (2022) a 92% (2023) ar gyfer y rheini rhwng 35 a 54 oed, a 92% ar gyfer y rheini sy'n 55 oed a hŷn. Mae hyn yn awgrymu bod lefel is o ddealltwriaeth o'r gyfraith ymysg oedolion iau ac efallai y bydd angen ystyried dulliau gweithredu sy'n gwella eglurder i'r grŵp hwn, yn enwedig rhieni ifanc.


Roedd yr arolwg hefyd yn defnyddio dosbarthiad cymdeithasol i asesu ymwybyddiaeth o'r Ddeddf. Yn yr ymchwil, defnyddiwyd dosbarthiad cymdeithasol y DU, sy'n seiliedig ar grwpiau galwedigaeth, gan rannu ymatebwyr yn ABC1 (proffesiynol uwch a chanolradd/heb fod yn waith llaw) a C2DE (gwaith llaw medrus, gwaith llaw lled-fedrus a heb sgiliau a'r rhai ar yr incwm isaf). Roedd canfyddiadau ton 6 yr arolwg, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022, yn nodi bod 93% o ymatebwyr ABC1 wedi nodi ymwybyddiaeth wedi'i chymell o'r Ddeddf, o'i gymharu ag 88% ar gyfer C2DE. Erbyn mis Tachwedd 2023, ton 7, roedd y bwlch hwn wedi cau'n fras gyda 90% o'r holl ymatebwyr yn ymwybodol bod y gyfraith yn gwahardd cosbi corfforol, gan awgrymu bod y cynnydd mewn ymwybyddiaeth ar ôl

gweithredu wedi'i ddosbarthu ar draws grwpiau economaidd-gymdeithasol. Yn yr un modd â chanfyddiadau'r arolwg ar gyfer 2023, nid oedd gwahaniaeth clir mewn lefelau ymwybyddiaeth yn ôl gradd gymdeithasol, gyda lefelau ymwybyddiaeth ymysg grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1 a C2DE yn debyg iawn - 84% ac 83% yn y drefn honno (Llywodraeth Cymru, 2025a).

Yn ogystal â chael eu holi am y gyfraith bresennol mewn perthynas â chosbi corfforol, gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd “Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol yn ystod y blynyddoedd diwethaf?”. Yn 2024, dangosodd 70% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ymwybyddiaeth ddigymell, i fyny o 66% yn 2023. Fodd bynnag, mae hyn yn dal ychydig yn is na'r lefel uchaf o 73% a gofnodwyd yn 2022 (Llywodraeth Cymru, 2023b; 2024; 2025a). Dangosir hyn yn Ffigur 3.

Gellir priodoli'r uchafbwynt cychwynnol i'r ymchwydd o sylw yn y cyfryngau ac ymgyrchoedd wedi'u targedu a oedd yn cyd-fynd â chyflwyno'r Ddeddf. Er bod ymwybyddiaeth yn dal yn uchel, mae'r duedd a welwyd yn nata'r arolwg yn awgrymu y gallai ymwybyddiaeth y boblogaeth gyffredinol fod wedi lleihau dros amser, gan bwysleisio y byddai dulliau parhaus o atgyfnerthu ymwybyddiaeth y cyhoedd yn fuddiol.

**Ffigur 3: Canran sy'n ymwybodol o newid mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pob un- 2018, 2019, 2020, 2021, Mawrth 2022, Tachwedd 2022, 2023, 2024)**




Ffynhonnell: Agweddau cyhoeddus at gosbi corfforol Canfyddiadau arolwg Omnibws Cymru Beaufort Tachwedd 2018 i Tachwedd 2024

Sylfaen: Pob un - 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000), Mawrth 2022 (1,000), Tachwedd 2022 (1,000), Tachwedd 2023 (1,000), Tachwedd 2024 (1,000)

Disgrifiad o Ffigur 3

Mae ffigur 3 yn dangos canran y rhai a oedd yn ymwybodol yn ddigymell nad yw'r gyfraith yn caniatáu i rieni gosbi eu plant yn gorfforol. Mae'r ffigur yn dangos tuedd gyffredinol o ganran uwch bob blwyddyn o bobl sy'n credu nad yw'r gyfraith yn caniatáu i rieni gosbi eu plant yn gorfforol ar y lefel ddigymell, gyda'r lefel uchaf yn 2022.

Mae ymwybyddiaeth wedi'i chymell wedi aros yn gyson, gydag 87% yn ymwybodol o'r newidiadau cyfreithiol pan gânt eu cymell. Mae'r ffigurau hyn wedi aros yn gymharol sefydlog ers cyflwyno'r Ddeddf, sy'n awgrymu lefel gyson o ymwybyddiaeth.

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio ystyr y Ddeddf, roedd 85% o'r ymatebwyr wedi nodi'n gywir ei bod yn "waharddiad llwyr ar smacio a chosb gorfforol". Roedd ymatebion eraill yn cynnwys awgrymiadau fel “dim cyswllt corfforol o gwbl” neu'r gred “ei bod eisoes yn anghyfreithlon cosbi plant yn gorfforol.” Er bod y ddealltwriaeth amlycaf yn gywir i raddau helaeth, mae'r camddehongliadau hyn yn datgelu rhywfaint o amwysedd parhaus yn nealltwriaeth y cyhoedd. Yn benodol, mae cyfeiriadau at “wahardd smacio” wedi cynyddu'n raddol dros amser o 64% yn 2018 i uchafbwynt o 90% yn 2023, cyn setlo ar 85% yn 2024.

Mae'r duedd hon yn dangos y gallai fod rhywfaint o ddiffyg eglurder ymysg y cyhoedd ynghylch union ystyr y gyfraith.

O ran sut mae'r cyhoedd yn dod yn ymwybodol o'r Ddeddf, cyfryngau traddodiadol yw'r ffynhonnell fwyaf dylanwadol o hyd. Canfu arolwg ton 8 fod 53% o'r ymatebwyr wedi nodi mai newyddion teledu oedd eu prif ffynhonnell wybodaeth, wedi'i ddilyn gan newyddion radio (19%) a hysbysebion teledu hefyd ar 19% (Llywodraeth Cymru, 2025a). Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu blynyddoedd blaenorol ac yn tynnu sylw at berthnasedd parhaus y cyfryngau darlledu o ran cyrraedd y cyhoedd. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu blynyddoedd blaenorol ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfryngau darlledu o ran cyrraedd y cyhoedd yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar.

### 3.2.3 Ymwybyddiaeth o’r Ddeddf ymhlith rhieni a gofalwyr yng Nghymru


Mae ymwybyddiaeth rhieni a gofalwyr o'r newid deddfwriaethol yn parhau i fod yn uchel, er bod dealltwriaeth ymysg y cyhoedd yn gyffredinol yn dangos rhywfaint o amrywiad. Yn y don ddiweddaraf (Tachwedd 2024) o'r arolwg o agweddau'r cyhoedd at gosbi plant yn gorfforol, roedd ymwybyddiaeth gref ymysg rhieni a gofalwyr plant iau, gydag 87% yn nodi ymwybyddiaeth pan ofynnwyd iddynt, ac roedd yn gryf ond ychydig yn is ar gyfer y rhai heb gyfrifoldebau gofalu, ar 82% (Llywodraeth Cymru, 2025a) ac mae hyn wedi aros yn gymharol gyson ers 2022.

Mae canfyddiadau tebyg yn cael eu hadleisio yng nghanfyddiadau Arolwg Amser i Siarad, Iechyd Cyhoeddus Cymru. Canfu'r arolwg hwn fod 91% o'r cyhoedd yn fras, a 95% o'r rhieni a holwyd, yn dweud eu bod yn gwybod bod cosbi corfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru.

### 3.2.4 Ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc

Mae plant a phobl ifanc ledled Cymru yn dangos lefelau uchel o ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'u hawl i gael eu hamddiffyn rhag trais, er bod dyfnder y ddealltwriaeth gyffredinol yn tueddu i amrywio yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol. Daw'r brif ffynhonnell ddata ar hyn o ymwybyddiaeth plant o ddeddfwriaeth cosbi corfforol a chanfyddiadau arolwg hawliau plant Hydref 2024 a Mawrth 2025 i Ebrill 2025. Mae canfyddiadau'r tonnau hyn yn dangos bod 87% o blant yn gwybod yn gywir nad yw rhieni na gofalwyr yn cael eu cosbi'n gorfforol, tra bod 10% yn meddwl ei fod yn cael ei ganiatáu, gyda 3% yn ansicr. Roedd y canlyniadau hyn hefyd yn gyson ar draws gwahanol grwpiau blwyddyn ysgol - Blynyddoedd 2 i 6, Blynyddoedd 7 i 11 a Blynyddoedd 12 i 13. Ym mhob un o'r grwpiau hyn, roedd 89%, 86% ac 89% yn credu nad oedd rhieni a gofalwyr yn cael cosbi plant yn gorfforol. Dangosir hyn yn Ffigur 4 (Llywodraeth Cymru, 2025c).

**Ffigur 4: Barn ynghylch a yw rhieni a gofalwyr eraill yn cael cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, Hydref 2024 a Mawrth 2025 i Ebrill 2025 (canran) (pob un ac yn ôl grŵp blwyddyn ysgol)**





Ffynhonnell: Ymwybyddiaeth plant o ddeddfwriaeth cosbi corfforol a chanfyddiadau arolwg hawliau plant Hydref 2024 a Mawrth 2025 i Ebrill 2025

Sylfaen: Pob un (888) blwyddyn 2 i 6 (268), blwyddyn 7 i 11 (299), blwyddyn 12 i 13 (188)

Disgrifiad o Ffigur 4: Mae'r graff hwn yn dangos a yw ymatebwyr yn credu bod rhieni a gofalwyr eraill yn cael cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Dangosir y canlyniadau ar lefel y sampl cyfan ac yn ôl grwpiau blwyddyn ysgol.

Roedd canfyddiadau'r arolwg hwn hefyd yn dangos bod ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth yn gryf ymysg plant; dywedodd 76% eu bod yn gwybod bod yna gyfraith sy'n gwneud pob cosb gorfforol yn anghyfreithlon, gyda 18% ddim yn gwybod, a 6% yn ansicr (Llywodraeth Cymru, 2025a). Roedd ymwybyddiaeth o'r Ddeddf hefyd yn cynyddu gydag oedran, o 70% o'r rhai ym Mlynyddoedd 2 i 6 a oedd yn ymwybodol o fodolaeth y Ddeddf, i 80% ym Mlynyddoedd 7 i 11. Grwpiau blwyddyn ysgol hŷn - roedd Blynyddoedd 7 i 11 a Blynyddoedd 12 i 13 yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r Ddeddf na'r rhai ym Mlynyddoedd 2 i 6. (80% a 78% o'i gymharu â 70% yn y drefn honno) (Ibid). Dangosir hyn yn Ffigur 5.

**Ffigur 5: Ymwybyddiaeth o'r gyfraith sy'n ei gwneud yn anghyfreithlon cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, Hydref 2024 a Mawrth 2025 i Ebrill 2025 (canran) (pob un ac yn ôl grŵp blwyddyn ysgol)**




Ffynhonnell: Ymwybyddiaeth plant o ddeddfwriaeth cosbi corfforol a chanfyddiadau arolwg hawliau plant Hydref 2024 a Mawrth 2025 i Ebrill 2025

Sylfaen: Pob un (888) Blwyddyn 2 i 6 (268), Blwyddyn 7 i 11 (299), Blwyddyn 12 i 13 (188)

Disgrifiad o Ffigur 5: Mae'r graff hwn yn dangos a yw ymatebwyr yn credu bod rhieni a gofalwyr eraill yn cael cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Dangosir y canlyniadau ar lefel y sampl cyfan ac yn ôl grwpiau blwyddyn ysgol.

Roedd gwybodaeth am fanylion y Ddeddf yn dilyn patrwm tebyg, gyda 48% o ymatebwyr iau (oedran Blynyddoedd 2 i 6) yn dweud y gallent restru ychydig o fanylion am y gyfraith, neu'n gwybod llawer o fanylion amdani, o'i gymharu â 70% o ymatebwyr hŷn (oedran Blynyddoedd 12 i 13) (Llywodraeth Cymru, 2025c).

Pan ofynnwyd iddynt sut y daethant i wybod am y Ddeddf, roedd yr ymatebion yn amrywio. Yr ateb mwyaf cyffredin oedd gan athrawon a chynghorau ysgol ar 57% a gan rieni (51%), ac yna cyfryngau cymdeithasol (31%) a theledu (26%) (Llywodraeth Cymru, 2024). Roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o gyfeirio at deledu (29% o'i gymharu â 23%), ac roedd plant o gartrefi incwm uwch yn fwy tebygol o ddysgu gan y Comisiynydd Plant na'r rheini o gartrefi incwm is (11% o'i gymharu â llai na 5%) (Llywodraeth Cymru, 2025c).

I gloi, roedd y mwyafrif helaeth (87%) o blant a phobl ifanc rhwng 7 a 18 oed a holwyd yn ymwybodol eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag cosb gorfforol gan rieni neu ofalwyr. Roedd tua thri chwarter (76%) y plant a'r bobl ifanc yn ymwybodol bod cyfraith ar waith sy'n atal rhieni a gofalwyr eraill rhag cosbi plant yn gorfforol. Mae hyn ychydig yn is na'r gyfran a oedd yn credu nad oedd rhieni a gofalwyr eraill yn cael cosbi plant yn gorfforol (87%), pan ofynnwyd iddynt am hyn heb gyfeirio at ddeddfwriaeth a oedd ar waith.

### 3.2.5 Casgliadau ar ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yng Nghymru

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf yn gryf yn gyffredinol ymysg gweithwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr, a'r cyhoedd yn gyffredinol. Ymddengys hefyd fod gan blant a phobl ifanc ddealltwriaeth gadarn o'r Ddeddf ar y cyfan.

Mae lefelau ymwybyddiaeth yn amrywio ychydig ar draws proffesiynau/sector gwaith, rhyw ac oedran, ond mae cydnabyddiaeth gyffredinol o'r Ddeddf yn eang, ac mae canfyddiadau'n awgrymu y bydd atgyfnerthu drwy addysg, hyfforddiant proffesiynol ac ymgyrchoedd cyhoeddus yn helpu i sicrhau bod lefelau ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yn parhau i fod yn uchel.

Ar sail y data sydd ar gael ar hyn o bryd, efallai mai un o’r cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth fydd canolbwyntio rhywfaint o waith ymgysylltu ar grwpiau penodol, fel oedolion ifanc, pobl hŷn ac ymarferwyr gofal iechyd nad ydynt yn gweithio gyda phlant fel mater o drefn.

## 3.3 Agweddau at gosbi corfforol

Mae agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru a'r Ddeddf wedi cael eu monitro cyn ac ers gweithredu'r Ddeddf. Y prif ffynonellau gwybodaeth am hyn yw arolwg omnibws Cymru Beaufort, arolwg omnibws Plant Cymru Beaufort, Arolwg Cenedlaethol Cymru, arolwg Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru, y gwaith ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol a wnaed gan Miller Research a llenyddiaeth ehangach am agweddau at gosbi corfforol.

### 3.3.1 Agweddau tuag at y Ddeddf yng Nghymru.

Mae agweddau tuag at y Ddeddf wedi esblygu ers gweithredu'r Ddeddf, gyda chanlyniadau amrywiol yn dibynnu ar oedran, cyfrifoldebau gofalu a rhyw. Mae agweddau'r cyhoedd tuag at gosbau corfforol o arolwg Omnibws Cymru Beaufort wedi bod yn hanfodol wrth asesu sut mae agweddau tuag at gosbau corfforol wedi esblygu rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Tachwedd 2024.

Mae canfyddiadau'r arolwg hwn yn awgrymu bod cefnogaeth y cyhoedd i ddeddfwriaeth sy'n dileu amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru wedi amrywio i ryw raddau dros amser, gyda thon ddiweddaraf yr arolwg yn dangos bod 55% o blaid y ddeddfwriaeth, o'i gymharu â 38% yn 2020. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan gynnydd yn nifer yr ymatebwyr sy'n ansicr neu'n gofyn am ragor o wybodaeth, yn hytrach na chynnydd sylweddol mewn gwrthwynebiad llwyr (Llywodraeth Cymru, 2025a).

O'r un arolwg, ac fel y canfuwyd mewn tonnau blaenorol, roedd y rhai 16 i 54 oed yn llawer mwy tebygol o fod o blaid y Ddeddf, yn hytrach nag yn erbyn y newid mewn deddfwriaeth. Ymysg y rhai a holwyd a oedd yn 55 oed neu'n hŷn, roedd y farn yn gymysg; roedd 2 o bob 5 (45%) yn cefnogi'r newid, ac roedd tua thraean (34%) yn ei wrthwynebu. Y rheswm a nodwyd amlaf dros gefnogi'r Ddeddf oedd gwrthwynebiad i gosb gorfforol, gyda 41% yn dweud nad oeddent “yn cytuno â smacio neu gosbi plant yn gorfforol”. (Llywodraeth Cymru, 2025a)

Nodwyd hefyd yn arolwg panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru, bod y gefnogaeth i'r Ddeddf yn gymharol uchel, gyda 62% o'r rhai a arolygwyd a 75% o'r rhieni a arolygwyd yn cefnogi dileu'r amddiffyniad cyfreithlon ar gyfer cosbi corfforol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2024).

Mae gan yr ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gan Miller Research yn 2025 gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd rai canfyddiadau diddorol ynghylch derbyn y Ddeddf. O'r rhai a gwblhaodd yr arolwg, dywedodd 60% o'r ymatebwyr eu bod wedi gweld “rhywfaint o ddryswch” ymysg rhieni ynghylch y newid cyfreithiol, sy'n aml yn gysylltiedig â rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol, mynediad cyfyngedig at wybodaeth, a diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o ymdrechion hyrwyddo (Llywodraeth Cymru, yn y wasg). Datgelodd cyfweliadau â gweithwyr proffesiynol a gynhaliwyd fel rhan o'r un ymchwil heriau penodol ymysg grwpiau penodol, fel:

- cenedlaethau hŷn (gan gynnwys neiniau a theidiau) a fagwyd pan dderbyniwyd cosb gorfforol yn eang

- unigolion sydd â chredoau dwfn yn eu hawl i ddisgyblu plant fel y gwelant orau
- ceiswyr lloches a mewnfudwyr sy'n anghyfarwydd â'r fframwaith cyfreithiol penodol yng Nghymru

Mae'r mewnwelediadau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd ymdrechion addysg gyhoeddus amlieithog sy'n ddiwylliannol sensitif ac sy'n gallu cyrraedd cymunedau ymylol ac amrywiol. Yn gyffredinol, er ei bod yn ymddangos bod barn y cyhoedd yn symud yn raddol tuag at dderbyn y ddeddfwriaeth yn well, mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod newid diwylliannol parhaol yn cymryd amser.


### 3.3.2 Agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru

Mae agweddau'r cyhoedd tuag at effeithiolrwydd a rheidrwydd cosbi corfforol yn wahanol; fodd bynnag, mae tuedd gyffredinol tuag at anghymeradwyo cosbi corfforol, sydd wedi cael ei nodi drwy sawl ffynhonnell (Llywodraeth Cymru 2025a, Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2024).

Gan edrych eto ar arolwg omnibws Cymru Beaufort ar agweddau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd, gofynnwyd i bawb a ymatebodd i'r arolwg i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod weithiau angen cosbi neu “smacio” plentyn yn gorfforol. Roedd y farn ar draws tonnau'r arolwg wedi'i rhannu rywfaint ar hyn, er bod mwy o ymatebwyr ym mhob ton yn anghytuno â'r datganiad hwn nag a oedd yn cytuno ag ef. Yn nhon ddiweddaraf yr arolwg (Tachwedd 2024), roedd 29% yn cytuno a 54% yn anghytuno bod 'angen smacio plentyn weithiau' (Llywodraeth Cymru, 2025a).

Mae'r gwahaniaeth rhwng y cyfrannau sy'n cytuno ac yn anghytuno â'r datganiad bron yn cyfateb i ganlyniadau arolwg 2023 (29% a 55%). Mae hyn yn fwy cul na'r hyn a welwyd yn yr arolwg a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2022, ychydig cyn i'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith, lle cytunodd 23% 'ei bod weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' ac roedd 62% yn anghytuno â'r datganiad hwn. Dangosir hyn yn ffigur 7.

**Ffigur 6: Canran sy'n cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pob un - 2018, 2019, 2020, 2021, Mawrth 2022, Tachwedd 2022, 2023)**




Ffynhonnell: Agweddau cyhoeddus at gosbi corfforol Canfyddiadau arolwg Omnibws Cymru Beaufort Tachwedd 2018 i Tachwedd 2024


Sylfaen: Pob un - 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000), Mawrth 2022 (1,000), Tachwedd 2022 (1,000), Tachwedd 2023 (1,000)

Disgrifiad o Ffigur 7: Mae'r graff hwn yn dangos canran y rhai sy'n cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn'. Mae'r canlyniadau'n dangos data o 2018, 2019, 2020, 2021, Mawrth 2022, Tachwedd 2022 a 2023.

Mae'n ymddangos hefyd bod rôl rhiant neu ofalwr yn cael effaith ar agweddau tuag at gosbi corfforol. Canfu canfyddiadau o don ddiweddaraf, ton 8, yr arolwg (Tachwedd 2024) fod y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant 7 oed neu iau, sef rhieni, gwarcheidwaid neu aelodau eraill o'r teulu sy'n darparu gofal rheolaidd, yn fwy tebygol o anghytuno â'r datganiad 'ei bod weithiau'n angenrheidiol “smacio” neu gosbi plentyn yn gorfforol'. O'r rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant 7 oed neu iau, roedd 63% yn anghytuno â'r datganiad hwn, 13% ddim yn cytuno nac yn anghytuno a 24% yn cytuno bod angen cosbi plentyn yn gorfforol weithiau. O'r rhai heb gyfrifoldebau gofalu am blentyn 7 oed neu iau, roedd 52% yn anghytuno â'r datganiad, ac roedd 17% yn dweud nad oeddent 'yn cytuno nac yn anghytuno' a 31% yn cytuno â'r datganiad. Roedd gwahaniaethau tebyg ymysg y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant o dan 7 oed neu nad oedd ganddynt gyfrifoldebau gofalu am blant o dan 7 oed hefyd i'w gweld mewn tonnau blaenorol o'r arolwg (Llywodraeth Cymru, 2025).

Gall hyn ddangos bod profiad uniongyrchol o ofalu, yn enwedig gyda phlant iau, yn gwella ymwybyddiaeth o ddulliau disgyblu amgen neu'n adlewyrchu normau rhianta newidiol o fewn y demograffig hwn (Llywodraeth Cymru, 2025). Mae'r canfyddiadau hyn i'w gweld yn ffigur 8.

**Ffigur 7: Canran sy'n cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio (cosbi plentyn yn gorfforol)'. (Pob un a pha un a ydynt yn ofalwr rheolaidd i blentyn 7 oed neu iau - Tachwedd 2024)**




Ffynhonnell: Agweddau cyhoeddus at gosbi corfforol Canfyddiadau arolwg Omnibws Cymru Beaufort Tachwedd 2018 i Tachwedd 2024

Sylfaen: Pob un (1,000), Gofalwr rheolaidd am 7 oed neu iau (320), Ddim yn ofalwr rheolaidd am 7 oed neu iau (673)

Disgrifiad o Ffigur 8: Mae'n dangos y ganran sy'n cytuno bod angen cosbi plentyn yn gorfforol weithiau. Mae'r rhain wedi'u rhannu i'r rheini sy'n gofalu am blant 7 oed neu iau, y rheini nad ydynt yn gofalu am blant 7 oed neu iau a'r holl ymatebion.

Roedd canfyddiadau pellach o'r arolwg hwn yn datgelu bod mwy o ddynion na menywod yn cytuno â'r datganiad bod 'angen smacio plentyn weithiau', gyda 33% o ddynion yn cytuno o'i gymharu â 26% o fenywod (Llywodraeth Cymru, 2025a). Mae'r bwlch hwn rhwng y rhywiau hefyd yn gyson â chanfyddiadau arolygon blaenorol o 2022 a 2023. Yn yr un modd, nid oedd y farn am gosbi corfforol yn amrywio llawer ar draws graddau cymdeithasol: Roedd 30% o'r ymatebwyr yng ngraddau cymdeithasol ABC1 (y rhai mewn rolau rheoli a phroffesiynol fel arfer) a 29% yng ngraddau cymdeithasol C2DE (y rhai mewn galwedigaethau gwaith llaw yn gyffredinol) yn cytuno â'r datganiad. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn cyd-fynd â phatrymau a welwyd mewn tonnau arolwg cynharach (Llywodraeth Cymru, 2025a).

Yn ddiddorol, gwelwyd gostyngiad bach yn y gwrthwynebiad llwyr i gosbi corfforol yn yr arolwg o gosbi plant yn gorfforol ers cyflwyno'r gyfraith, gyda 55% yn anghytuno â'i rheidrwydd ym mis Tachwedd 2023, i lawr o uchafbwynt o 62% ym mis Mawrth 2022 (Llywodraeth Cymru, 2024). Gellid priodoli'r newid cynnil hwn i nifer o ffactorau: efallai fod rhai unigolion yn profi dryswch ynghylch y fframwaith cyfreithiol newydd, neu efallai ei fod yn adlewyrchu gwrthwynebiad naturiol i newid diwylliannol cyflym, yn enwedig ymysg oedolion hŷn, ond nid yw hyn wedi cael ei arsylwi yn y dadansoddiad a adolygwyd fel rhan o'r astudiaeth hon. Yn wir, fel y gwelwyd ar draws pob un o donnau'r arolwg, mae ymatebwyr

hŷn (55 oed a hŷn) yn fwy tebygol o gefnogi'r angen am gosb gorfforol, gan dynnu sylw at wahaniaethau parhaus rhwng cenedlaethau a allai lesteirio derbyniad cymdeithasol llawn y Ddeddf yn y tymor byr i'r tymor canolig. Mae hyn yn gyson â'r ymchwil a wnaed cyn y Ddeddf bod newid diwylliannol yn cymryd amser.

Roedd y safbwyntiau hyn hefyd yn debyg i'r rhai a welwyd yn nata Arolwg Cenedlaethol Cymru. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod angen smacio plentyn weithiau. Casglwyd y data hwn yn 2019 i 2020, 2022 i 2023 a 2024 i 2025. Cynyddodd canran y bobl a oedd yn anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn o 30% i 40% dros y cyfnod hwn. Roedd y rheini a oedd yn tueddu i anghytuno wedi aros yn sefydlog ar draws pob ton ar tua 17% i 20%, yn yr un modd ag ymatebion niwtral (15% i 17%).

Gostyngodd y rhai a oedd yn tueddu i gytuno â'r datganiad o 25% yn 2019 i 2020 i 20% yn 2024 i 2025, a gostyngodd y rhai a oedd yn cytuno'n gryf ei bod weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn ychydig o 9% i 7%.

Ar ben hynny, roedd yr arolwg panel Amser i Siarad a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn edrych ar safbwyntiau pobl ac yn adrodd ar brofiadau o wahanol ffyrdd o reoli ymddygiad plant. Ymysg y rhieni a ymatebodd, roedd y mwyafrif llethol (86%) o'r farn bod cosbi corfforol yn aneffeithiol a dim ond 1% ddywedodd fod cosbi corfforol yn “effeithiol iawn” (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2024). Dim ond rhwng 1% a 2% o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi defnyddio cosb gorfforol yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd y rhan fwyaf o rieni (64%) nad oeddent “erioed” wedi smacio/slapio plentyn. Mae'r ffigurau hyn yn dangos effeithiolrwydd tybiedig isel a defnydd diweddar isel o gosbi corfforol fel strategaeth ddisgyblu ymysg rhieni yn y sampl hon. Strategaethau cadarnhaol nad ydynt yn gorfforol fel canmol a gwobrwyo ymddygiad da, a rhesymu â phlant gafodd y sgoriau “effeithiol iawn” uchaf. Dywedodd dros 90% o'r ymatebwyr a oedd yn rhieni eu bod yn defnyddio dulliau cadarnhaol, sy'n dangos cefnogaeth gref i reoli ymddygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth a newid mewn agweddau cyhoeddus a normau cymdeithasol oddi wrth gosb gorfforol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2024). Mae'r consenswS hwn yn adlewyrchu cydnabyddiaeth gynyddol o'r manteision ymddygiadol cyfyngedig a'r niwed posibl sy'n gysylltiedig â disgyblaeth gorfforol, gan gyd-fynd ag ymchwil datblygu plant cyfoes sy'n pwysleisio strategaethau rhianta di-drais.

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, er bod ymwybyddiaeth a gwrthod cosb gorfforol yn cynyddu, bod pocedi o ansicrwydd, a derbyn cosb gorfforol yn parhau. Felly, gallai addysg gyhoeddus barhaus, cymorth wedi'i dargedu i rieni, ac ymyriadau sy'n ddiwylliannol sensitif sicrhau bod y newid deddfwriaethol yn troi'n newid ystyrlon o ran ymddygiad ac agwedd ar lefel gymunedol.

### 3.3.3 Agweddau plant tuag at gosbi corfforol

Mae'r gefnogaeth ymysg plant i wneud cosbi corfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru yn gymharol uchel, gyda 69% o bobl ifanc yn cytuno neu'n cytuno'n gryf na ddylid defnyddio cosbi corfforol fel math o ddisgyblaeth. Casglwyd y data hwn fel rhan o gyfres o gwestiynau a gynhwyswyd yn Arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (Gwybodaeth, Ymwybyddiaeth ac Agweddau Pobl Ifanc ynghylch Hawliau Plant yng Nghymru, 2023). Yn benodol, mae gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn dod i'r amlwg yn yr agweddau hyn; roedd

cytuno â'r datganiad 'ni ddylid caniatáu i rieni na gwarcheidwaid ymosod yn gorfforol ar eu plant fel math o gosb' yn sylweddol uwch ymysg merched (76%) o'i gymharu â bechgyn (61%).

Mae'n ymddangos bod oedran hefyd yn chwarae rhan, gyda'r gefnogaeth i'r ddeddfwriaeth yn cynyddu'n raddol o 13% i'r rhai ym Mlwyddyn 7 yn yr ysgol, i 18% i'r rhai ym Mlwyddyn 11 yn yr ysgol. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, wrth i bobl ifanc aeddfedu, bod eu hymwybyddiaeth o hawliau plant a'u dealltwriaeth o fathau di-drais o ddisgyblu yn dod yn fwy datblygedig (Ibid.).

## 3.4 Effaith ar wasanaethau cyhoeddus

Roedd yr effaith ar wasanaethau cyhoeddus yn rhywbeth a ystyriwyd yn helaeth wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth. Er mwyn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus i roi'r ddeddfwriaeth ar waith, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau bod canllawiau ac adnoddau clir ar waith. Mae gweithwyr proffesiynol yn parhau i ddilyn prosesau diogelu sefydledig, ond arweiniodd cydweithio amlasiantaethol sylweddol at ddatblygu canllawiau i'r heddlu, Timau Troseddau Ieuenctid, ac awdurdodau lleol ar weinyddu ac atgyfeirio rhieni am gymorth drwy Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys. Cyhoeddwyd Canllaw Ymarfer penodol i ategu'r gweithdrefnau diogelu presennol, gan gynnig gwybodaeth ychwanegol i ymarferwyr am ymatebion o dan y Ddeddf. Cafodd fframweithiau cenedlaethol allweddol, gan gynnwys Rhaglen Plant Iach Cymru a'r Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, eu diweddaru er mwyn i ymwelwyr iechyd ac ysgolion gael cyngor priodol. Yn ogystal, diweddarodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ei Safon Cyhuddo yn annibynnol i adlewyrchu'r newid yn y gyfraith.

Mae'r ffynonellau data sy'n sail i'r adran hon o'r canfyddiadau yn cynnwys data monitro am nifer y rhieni sy'n cael eu cefnogi gan Gynllun Datrysiadau Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys, data monitro gan Wasanaeth Erlyn y Goron, data monitro gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a thystiolaeth a gasglwyd o'r gwaith ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol a wnaed gan Miller Research.

### 3.4.1 Data ar nifer yr achosion lle nodwyd cosb gorfforol yng Nghymru

Gellir rhoi gwybod i'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol am gosb gorfforol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Rhaid i bob atgyfeiriad o'r fath ddilyn y gweithdrefnau diogelu presennol a'r 'Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan' i sicrhau ymateb cyson a chydlynol.

Pan fydd yr heddlu'n cael adroddiad am gosb gorfforol, maent yn ymchwilio ac yn penderfynu ar gamau priodol ar sail tystiolaeth a budd y cyhoedd, a allai gynnwys erlyn, dim camau pellach, neu Ddatrysiad y Tu Allan i'r Llys. Bydd yr heddlu hefyd yn ystyried beth sydd er lles gorau'r plentyn ar ôl trafodaethau aml-asiantaeth gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau perthnasol eraill (e.e. ysgolion, lleoliadau gofal plant, gweithwyr iechyd proffesiynol). Mae OOCD yn cynnwys atgyfeiriadau cymorth magu plant gorfodol, tra gall achosion NFA barhau i arwain at gyfeirio at gymorth gwirfoddol, gan sicrhau bod diogelu'n parhau i fod yn ganolog hyd yn oed heb gosbau ffurfiol.

Mae data monitro cyhoeddedig am atgyfeiriadau a wnaed gan yr heddlu at gymorth rhianta y tu allan i'r llys yn darparu gwybodaeth am gyrhaeddiad y cynllun yng Nghymru. Yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2025, cafodd tua 365 o unigolion eu cyfeirio am gymorth rhianta y tu allan i'r llys gan staff yr heddlu yng Nghymru. O'r unigolion a atgyfeiriwyd, manteisiodd 335 o unigolion ar y cynnig o gymorth, gyda 310 ohonynt wedi cwblhau'r sesiynau'n llawn, ac efallai fod rhai yn dal i fynd rhagddynt adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

O'r rhai sydd wedi cwblhau'r sesiynau, adroddodd 265 o'r unigolion ganlyniad cadarnhaol mewn holiadur ôl-gymorth. Nid oes ffigurau ar gael ar gyfer cyfanswm nifer yr holiaduron a gwblhawyd. Mae hyn yn awgrymu bod y cymorth magu plant y tu allan i'r llys yn hygyrch ac yn hylaw i'r rhan fwyaf o rieni sy'n cael eu cyfeirio.

Yn ystod y cyfnod diweddaraf (Ebrill 2024 i Mawrth 2025), gwnaed tua 110 o atgyfeiriadau, gan heddluoedd yng Nghymru i'r cynllun OOCPS a chwblhaodd tua 105 o rieni'r cymorth (o'r holl unigolion sy'n manteisio ar y cymorth magu plant, gan gynnwys rhai a gwblhaodd yn rhannol yn 2023 i 2024). O'r unigolion a gwblhaodd y cynllun cymorth, nododd 95 ganlyniad cadarnhaol fel gwell ymddygiad plant neu hyder rhieni (Llywodraeth Cymru, 2025e).

Mae data ychwanegol ar nifer yr unigolion a gafodd gymorth magu plant oherwydd bod cosbi corfforol yn ffactor (a ariennir drwy'r rhaglen OOCPS) ond na chawsant eu hatgyfeirio gan yr heddlu fel rhan o gynllun datrysiadau y tu allan i'r llys neu ddargyfeirio rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025 hefyd yn cael ei gasglu. Mae'r data diweddaraf ar gyfer y cyfnod hwn yn dangos bod 265 o unigolion wedi cael eu hatgyfeirio. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw pob atgyfeiriad at y cymorth magu plant a ddarperir gan weithwyr cymorth magu plant y tu allan i'r llys yn dod drwy'r heddlu.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn monitro ffeiliau achos i ddarparu data ar nifer yr erlyniadau sy'n ymwneud â chosbi plentyn yn gorfforol. Adeg adrodd, mae llai na phum achos wedi cael eu cyflwyno i Wasanaeth Erlyn y Goron i'w hystyried ac ni chafwyd unrhyw euogfarnau dros y cyfnod cyfan ers rhoi'r Ddeddf ar waith.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer diogelu plant a hyrwyddo eu llesiant ac mae'n gosod dyletswydd statudol ar weithwyr proffesiynol i roi gwybod i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol am unrhyw blentyn sydd mewn perygl o niwed. Mae cosb gorfforol, pan gaiff ei nodi, yn cael ei thrin fel pryder diogelu o dan y Ddeddf hon. Mae canllawiau statudol yn nodi'r gofynion ar gyfer asesu, ymyrryd a chydweithredu amlasiantaethol. Unwaith y derbynnir atgyfeiriad, bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn cynnal asesiad cychwynnol i bennu risg a phenderfynu ar ymyriadau priodol. Gall hyn gynnwys dim camau pellach, asesiad ychwanegol o anghenion gofal a chymorth y plentyn, camau diogelu ar unwaith, neu, os oes achos rhesymol dros amau camdriniaeth, esgeulustod, neu niwed ac anghenion gofal a chymorth, gall y gwasanaethau cymdeithasol gynnal ymholiadau o dan Adran 47 Deddf Plant 1989.

Canfu tystiolaeth a gasglwyd o'r ymchwil ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol gan Miller Research fod y rhan fwyaf o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth heddlu fel arfer yn dod gan

weithwyr proffesiynol mewn sefydliadau eraill, a dywedwyd y daw’r niferoedd uchaf gan wasanaethau cymdeithasol.

Darparwyd data gweinyddol gan y gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu cyd-destun ar gyfer deall effaith y Ddeddf ar wasanaethau cyhoeddus. Ni ddylid cymharu data cyn gweithredu'r Ddeddf â data sy'n dilyn y Ddeddf. Mae hyn oherwydd bod llai o awdurdodau lleol wedi darparu data yn 2021 i 2022 a bod rhai wedi darparu data am chwe mis yn unig.

Yn ogystal, dylid bod yn ofalus wrth gymharu data'r gwasanaethau cymdeithasol ers rhoi'r Ddeddf ar waith gan fod rhai awdurdodau lleol wedi nodi newidiadau yn y ffordd yr oedd asesiadau'n cael eu cynnal a'u hadrodd rhwng y ddwy flynedd.

Nifer y cysylltiadau gwasanaethau cymdeithasol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd cosb gorfforol yn ffactor a nodwyd, a nifer yr asesiadau a gofnodwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol lle'r oedd cosbi plant yn gorfforol yn ffactor.

Yn y flwyddyn ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym (2022 i 2023), cofnodwyd 4,855 o gysylltiadau â gwasanaethau cymdeithasol lle'r oedd cosbi plant yn gorfforol yn ffactor. Mewn ychydig llai na hanner y rhain (2,257) cosbi corfforol oedd yr unig ffactor a gofnodwyd. Mae'r data ar gyfer 2023 i 2024 yn dangos cynnydd yn hyn i 5,628 o gysylltiadau, a 2,848 lle cofnodwyd cosb gorfforol fel yr unig ffactor.

Yn 2022 i 2023, y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym, cofnodwyd 3,168 o asesiadau gan y gwasanaethau cymdeithasol lle'r oedd cosbi plant yn gorfforol yn ffactor. Mewn bron i hanner y rhain (1,504) cosbi corfforol oedd yr unig ffactor a gofnodwyd. Unwaith eto, mae'r data'n dangos cynnydd yn y data hwn ar gyfer 2023 i 2024 (i 3,447 o asesiadau), ond gostyngiad yn nifer yr asesiadau lle mai cosbi corfforol oedd yr unig ffactor (i lawr i 1,475).

Darparwyd data o system rheoli ffeiliau achos yr heddlu o ddata ffeiliau achos o achosion ymosodiadau cyffredin ar blant i Lywodraeth Cymru gan yr heddluoedd yng Nghymru, ac eithrio heddlu De Cymru, i amcangyfrif nifer yr achosion o gosbi plentyn yn gorfforol a gofnodwyd cyn gweithredu'r Ddeddf, ac yna eto ers gweithredu'r Ddeddf. Darparwyd allbynnau'r gwaith hwn yn yr adroddiad hwn. Ar gyfer y 3 heddlu a ddarparodd ddata, amcangyfrifwyd bod cyfanswm yr achosion o gosbi corfforol a gofnodwyd cyn gweithredu'r Ddeddf yng Nghymru yn tua 3,900. Ers rhoi'r Ddeddf ar waith yng Nghymru, eto ar gyfer yr heddluoedd hynny a ddarparodd ddata, amcangyfrifwyd bod cyfanswm yr achosion o gosbi corfforol a gofnodwyd yn oddeutu 6,200.

Nod y Ddeddf oedd amddiffyn hawliau plant wrth fabwysiadu dull addysgu ac ataliol sy'n osgoi troseddoli rhieni (neu rieni in loco parentis). Mae'r data hwn, o'i ystyried yn ei gyfanrwydd, yn awgrymu, o safbwynt gwasanaeth, bod nod y Ddeddf yn cael ei wireddu'n ymarferol, gan nad troseddoli rhieni yw diben gweithredu, ond eu “helpu, eu haddysgu a'u cefnogi i reoli ymddygiad yn wahanol” (Gofal Cymunedol, 2022). Felly, dylai fod yn llai tebygol y bydd rhieni'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol am dorri'r Ddeddf, gan osgoi cynnydd cyfatebol yn y galw ar lysoedd ac adnoddau'r gwasanaethau amddiffyn.

### 3.4.2 Newidiadau i'r llwyth gwaith

Mae canfyddiadau'r gwaith ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol a gynhaliwyd gan Miller Research yn awgrymu bod effaith y Ddeddf wedi bod yn anwastad ar draws sectorau, gan adlewyrchu amrywiaeth cyfrifoldebau gwasanaeth a llwybrau atgyfeirio. Mae effaith y Ddeddf ar lwythi gwaith proffesiynol wedi bod yn anghyson, gan amrywio ar draws ac o fewn sectorau oherwydd gwahaniaethau mewn rolau, disgwyliadau ac arferion presennol.


Dywedodd llawer o weithwyr proffesiynol, yn enwedig ym maes addysg, iechyd, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a rhai awdurdodau lleol, nad oedd unrhyw newid, gan briodoli hyn i aliniad â'r dyletswyddau diogelu presennol. Cafodd y gweithwyr cymorth rhianta newydd eu recriwtio'n benodol i ddarparu cymorth rhianta y tu allan i'r llys ac felly nid oedd ganddynt lwyth gwaith blaenorol i'w gymharu.

Dywedodd staff eraill yr awdurdod lleol a'r heddlu eu bod yn teimlo rhywfaint o rwystredigaeth oherwydd bod nifer yr achosion yn is na'r disgwyl ar ôl rhoi'r Ddeddf ar waith. Roedd y gweithwyr proffesiynol hyn wedi rhagweld nifer uwch o atgyfeiriadau ac wedi addasu adnoddau yn unol â hynny.

I rai gweithwyr proffesiynol, yn enwedig ym maes plismona ac awdurdodau lleol, nodwyd bod y Ddeddf wedi arwain at fwy o lwyth gwaith oherwydd prosesau sy'n cymryd mwy o amser ac ailddosbarthu digwyddiadau lefel isel yn droseddau. Fodd bynnag, dywedodd llawer fod modd rheoli'r newidiadau hyn, gyda'r heriau cychwynnol yn cael eu lliniaru gan lwybrau atgyfeirio cliriach a strwythurau cymorth (Llywodraeth Cymru, yn y wasg).

Yn yr un ymchwil ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol, dywedodd bron i chwarter (23%) o ymatebwyr yr arolwg nad oedd eu llwyth gwaith wedi newid, yn enwedig y rheini sy'n gweithio ym maes addysg ac iechyd, lle'r oedd prosesau diogelu eisoes yn cynnwys mesurau diogelu tebyg (Ibid.).

**Ffigur 8: I ba raddau (os o gwbl) y mae'r Ddeddf wedi effeithio ar lwyth gwaith staff eich sefydliad wrth iddi ddod i rym? Gorffennaf 2025 i Awst 2025**




Ffynhonnell: Arolwg o weithwyr proffesiynol, Ymchwil Ansoddol gyda Gweithwyr Proffesiynol, C16. N=128

Disgrifiad o Ffigur 9: Graff bar yn dangos i ba raddau y mae'r rhai a gyfwelwyd yn credu bod y Ddeddf wedi effeithio ar lwyth gwaith staff eu sefydliad. Dywedodd mwy na thraean (36%) o'r ymatebwyr fod llwyth gwaith staff wedi cael ei effeithio (23%) neu ei effeithio'n fawr (13%), tra bod 39% yn meddwl ei fod wedi cael ei effeithio rhywfaint (20%) neu ychydig (19%).

Roedd data a ddarparwyd gan Cafcass Cymru ar nifer yr achosion cyfraith teulu preifat cyn ac ers y Ddeddf yn dangos nad oedd gweithredu'r Ddeddf wedi gwneud unrhyw wahaniaeth amlwg i lwyth gwaith y sefydliad o ran achosion sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder teuluol. Nid yw eto'n bosibl adrodd ar achosion lle mae cosbi corfforol yn ffactor adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Roedd y gwaith ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol yn edrych ar y broses o wneud penderfyniadau ynghylch a yw achos yn achos o gosb gorfforol (Llywodraeth Cymru, yn y wasg). Dangosodd y canfyddiadau fod hyn yn cynnwys dilyniant o ddyfarniadau gan wahanol weithwyr proffesiynol ar wahanol adegau yn y broses. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn yr ymchwil yn glir nad yw'r trothwyon ar gyfer ymyrraeth wedi newid o ganlyniad i'r Ddeddf. Mae hyn yn golygu nad yw pob achos o gosbi corfforol yn cael ei drin fel achos amddiffyn plant. Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau yn cynnwys difrifoldeb yr anaf a

gafwyd, unrhyw gysylltiad blaenorol rhwng y teulu a'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol, a thystiolaeth o drais yn y cartref.

Nododd canfyddiadau'r un ymchwil fod angen cynyddol am gymorth rhianta yn fwy cyffredinol. Roedd y rhai a gyfwelwyd sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth rhianta y tu allan i'r llys, gweithwyr proffesiynol eraill awdurdodau lleol, a Cafcass Cymru o'r farn bod cynnydd ehangach yn y galw am gymorth rhianta wedi cael ei sbarduno gan faterion cymdeithasol ehangach fel y pandemig a phwysau costau byw, tai a'r dirwedd polisi cymdeithasol ehangach (Llywodraeth Cymru, yn y wasg) yn hytrach na'r Ddeddf ei hun.

Disgrifiodd rheolwyr awdurdodau lleol hefyd nifer cynyddol o ymholiadau Adran 47 (ymchwiliadau amddiffyn plant a gynhaliwyd o dan Ddeddf Plant 1989 lle mae achos rhesymol dros amau bod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol), hyd yn oed ar gyfer achosion lefel is lle mae weithiau'n 'ddiangen', gan gyfrannu at ôl-groniadau dros dro (Llywodraeth Cymru, yn y wasg).


Pwysleisiodd gweithwyr proffesiynol yn gyson fod y ffocws yn parhau ar addysg a chymorth yn hytrach na throseddoli, sydd wedi helpu i reoli llwythi gwaith drwy atal achosion rhag gwaethygu'n ddiangen a hyrwyddo ymyrraeth gynnar, yn unol â bwriad ataliol y gyfraith (Ibid.). Mae datblygu llwybrau atgyfeirio cliriach, cydweithio rhyngasiantaethol cryfach, a gwell gallu i gefnogi rhieni wedi galluogi'r rhan fwyaf o sefydliadau i reoli addasiadau i lwyth gwaith.

Tynnodd gweithwyr proffesiynol yn yr ymchwil ansoddol sylw hefyd at werth canllawiau cenedlaethol clir, llwybrau atgyfeirio cryfach, a gwell cymorth magu plant drwy fentrau fel y Cynllun Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys a'r ymgyrch Rhianta, Rhowch Amser Iddo. Mae hyfforddiant ac adnoddau a ddatblygwyd gyda phartneriaid, fel Plant yng Nghymru, hefyd wedi cynyddu hyder ymarferwyr ac wedi hyrwyddo arferion diogelu cyson ar draws sectorau.

### 3.4.3 Barn gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd

Prif ffynhonnell y dystiolaeth ar farn gweithwyr proffesiynol am weithio gyda phlant a theuluoedd yw'r astudiaeth ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol a gynhaliwyd gan Miller Research (Llywodraeth Cymru, yn y wasg). Canfu fod gweithredu'r Ddeddf wedi arwain at nifer o effeithiau cadarnhaol ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau'n dangos mwy o gydweithio rhyngasiantaethol, mwy o fynediad at gymorth magu plant, a gwell hyder proffesiynol a'r gallu dilynol i amddiffyn hawliau plant. Fel rhan o'r ymchwil ansoddol, a oedd hefyd yn cynnwys arolwg ar-lein o weithwyr proffesiynol, dywedodd 39% o'r ymatebwyr fod llwybrau atgyfeirio wedi gwella rhwng asiantaethau o ganlyniad i'r Ddeddf, ac roedd ychydig dros un rhan o bump (21%) o ymatebwyr yr arolwg yn teimlo nad oedd llwybrau atgyfeirio wedi gwella. Yn benodol, roedd y gyfran fwyaf o ymatebwyr (40%) yn teimlo nad oeddent yn gallu rhoi sylwadau ynghylch a yw'r Ddeddf wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar lwybrau atgyfeirio. Gallai hyn fod oherwydd bod llwybrau atgyfeirio mor amrywiol a lefelau cyfathrebu anghyson sy'n ei gwneud yn anodd barnu effeithiolrwydd cyffredinol y llwybrau atgyfeirio.

**Ffigur 9: 2I ba raddau y mae llwybrau atgyfeirio rhwng asiantaethau wedi gwella oherwydd y Ddeddf? Gorffennaf 2025 i Awst 2025**




Ffynhonnell: Arolwg o weithwyr proffesiynol, Ymchwil Ansoddol gyda Gweithwyr Proffesiynol, C17. N=135

Disgrifiad o Ffigur 10: Graff bar yn dangos i ba raddau roedd y rhai a gyfwelwyd yn credu bod llwybrau rhwng asiantaethau wedi gwella oherwydd y Ddeddf. Yn gyffredinol, roedd 39% yn teimlo eu bod wedi gwella, gyda 4% yn teimlo eu bod wedi gwella'n fawr, 13% yn teimlo eu bod wedi gwella, a 22% yn teimlo eu bod wedi gwella rhywfaint.

Canfu canfyddiadau cyfweliadau o'r un astudiaeth fod integreiddio cymorth rhianta y tu allan i'r llys o fewn gwasanaethau rhianta ehangach yn cael ei ystyried yn gadarnhaol gan weithwyr proffesiynol. Mae'n galluogi awdurdodau lleol i ddarparu cymorth mwy cyflawn a hyblyg i rieni, plant a theuluoedd. Fodd bynnag, nododd rhai gweithwyr proffesiynol ostyngiad yn lefel y cydweithio â'r heddlu, yn dilyn cynnydd cychwynnol pan gyflwynwyd y Ddeddf. Er gwaethaf y dystiolaeth gymysg ar draws sectorau, darparodd gweithwyr proffesiynol sawl enghraifft o newid cadarnhaol ers cyflwyno'r Ddeddf. Mewn rhai meysydd, mae prosesau wedi dod yn gliriach ac yn fwy cyson, gydag asiantaethau'n adrodd am gydweithio llyfnach a gwneud penderfyniadau cyflymach (Llywodraeth Cymru, yn y wasg).

Mae'r ymchwil ansoddol hefyd yn dangos bod gweithwyr proffesiynol yn ystyried bod y Ddeddf wedi gwella eu gallu i ddiogelu hawliau plant, gyda bron i 60% yn dweud ei bod naill ai wedi eu cefnogi neu eu cefnogi'n fawr i amddiffyn hawl plant i beidio â gorfod dioddef trais (Llywodraeth Cymru, yn y wasg). Yn yr un modd, mae ymchwil gan Goleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, 2024, sy'n defnyddio ymchwil ryngwladol bresennol i adolygu effeithiau cosbi corfforol, hefyd wedi datgan y gall dileu amddiffyniad cosb resymol helpu i symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau diogelu ar gyfer gweithwyr proffesiynol, fel gweithwyr gofal iechyd, addysgwyr a gweithwyr cymdeithasol, a'u galluogi i ddarparu canllawiau cliriach i deuluoedd.

Dywedodd y rhan fwyaf (59%) o ymatebwyr i'r arolwg ar-lein a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol fod ganddynt brofiad o drafod y Ddeddf a'i

newidiadau cyfreithiol gyda rhieni neu ofalwyr yn eu rolau presennol (Llywodraeth Cymru, yn y wasg). Yn ddiddorol, roedd proffiliau proffesiynol y rhai â'r profiad hwn a'r rhai heb y profiad hwn yn debyg iawn. Cynrychiolwyd pob un o'r prif sectorau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, addysg, iechyd, yr heddlu a gofal plant yn y ddau grŵp (h.y.: y rhai â phrofiad o drafod y Ddeddf gyda rhieni neu ofalwyr a'r rhai heb brofiad). Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod gan rai o gyfranogwyr yr arolwg rolau uwch ac efallai nad oes ganddynt gyswllt uniongyrchol â rhieni a gofalwyr mwyach, er ei bod yn bwysig nodi nad oedd yr arolwg ar-lein yn cofnodi statws yr ymatebwyr (Llywodraeth Cymru, yn y wasg).

O ran hyder wrth gyflwyno'r neges hon, dywedodd mwyafrif ychydig yn llai (57%) o weithwyr proffesiynol eu bod yn teimlo'n hyderus neu'n hyderus iawn bod y Ddeddf yn eu galluogi nhw neu eu sefydliad i roi cyngor clir a diamwys i rieni a gofalwyr bod pob cosb gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru. Dywedodd 1 o bob 10 eu bod yn teimlo'n ddihyder, tra dywedodd 28% eu bod yn “eithaf hyderus” wrth drafod y Ddeddf (Ibid).


Serch hynny, mae rhai heriau'n parhau. Canfu canfyddiadau'r ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gyda gweithwyr proffesiynol fod lleiafrif o weithwyr proffesiynol yn parhau i nodi ansicrwydd wrth egluro'r Ddeddf, gan nodi bod camsyniadau o hyd ymysg rhai rhieni ynghylch beth yw cosbi corfforol. Mae cofnodi data a chategoreiddio achosion anghyson hefyd yn cyfyngu ar y gallu i asesu effeithiau ar draws y system yn llawn. Yn olaf, mae rhwystrau iaith ac ymwybyddiaeth gyfyngedig ymysg rhai cymunedau lleiafrifol a mudol yn tynnu sylw at yr angen parhaus am gyfathrebu hygyrch sy'n sensitif yn ddiwylliannol (Llywodraeth Cymru, yn y wasg).

Er mwyn cefnogi dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o'r Ddeddf, mae Canllawiau Ymarfer, i'w ddefnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, wedi cael eu cyhoeddi, sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol i ymarferwyr am ymatebion diogelu pan fydd cosb gorfforol yn effeithio ar blentyn. Mae'r canllawiau a'r gweithdrefnau'n pwysleisio pwysigrwydd asesu risg, rhannu gwybodaeth, dogfennu pryderon, a chymryd camau cyflym (Diogelu Cymru, 2025). Mae'r canllawiau yn nodi y dylai trefniadau diogelu effeithiol mewn awdurdodau lleol fod yn seiliedig ar ddwy egwyddor allweddol: mae diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb a phwysigrwydd dilyn dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r dull strwythuredig hwn wedi cryfhau hyder proffesiynol ac wedi darparu canllawiau cliriach i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd (Llywodraeth Cymru, yn y wasg)

Fodd bynnag, canfu'r un astudiaeth fod rhai gweithwyr proffesiynol yn teimlo y gellid gwella hyfforddiant ac arweiniad ynghylch y Ddeddf. Roedd canfyddiadau'r astudiaeth hon yn dangos, er bod llawer o weithwyr proffesiynol yn cofio'r ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a oedd wedi'u hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol, nad oedd cymaint o ymwybyddiaeth o ddeunyddiau a oedd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Pan ofynnwyd a ydych chi'n ymwybodol o unrhyw hyfforddiant, gwybodaeth neu arweiniad sydd ar gael i bobl yn eich proffesiwn mewn ymateb i'r Ddeddf? (e.e. canllawiau ymarfer, fideos, taflenni neu gyrsiau), nid oedd 63% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn ymwybodol o unrhyw ddeunyddiau, canllawiau na hyfforddiant. Roedd ymwybyddiaeth ar ei hisaf ymysg ymarferwyr gofal plant a chwarae. Roedd y rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o ddeunyddiau, canllawiau neu hyfforddiant bron i gyd yn weithwyr cymorth rhianta y tu allan

i'r llys neu'n weithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau cymdeithasol neu rolau eraill mewn awdurdodau lleol neu'r llywodraeth. Dangosir hyn yn y ffigur isod.

**Ffigur 10: A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw hyfforddiant, gwybodaeth neu arweiniad sydd ar gael i bobl yn eich proffesiwn mewn ymateb i'r Ddeddf? (e.e. canllawiau ymarfer, fideos, taflenni, cyrsiau) Gorffennaf 2025 i Awst 2025**




Ffynhonnell: Ffynhonnell: Arolwg o weithwyr proffesiynol, Ymchwil Ansoddol gyda Gweithwyr Proffesiynol, C6. N=135

Disgrifiad o Ffigur 11: Graff bar yn dangos nad yw 63% o weithwyr proffesiynol yn ymwybodol o unrhyw hyfforddiant, gwybodaeth nac arweiniad sydd ar gael i bobl yn eu proffesiwn mewn ymateb i'r Ddeddf. Mae'r graff yn gwahanu ymatebion y rheini sy'n ymwybodol i'r sectorau maen nhw'n gweithio ynddynt. Staff awdurdodau lleol a staff y tu allan i'r llys sydd fwyaf tebygol o fod yn ymwybodol (11%) ac yna gweithwyr proffesiynol eraill o'r awdurdod lleol / y Llywodraeth (8%) a heddluoedd (6%).

Ymysg y rheini sy'n gyfarwydd â'r canllawiau, cyfeiriodd nifer o weithwyr proffesiynol (gan gynnwys y rheini sy'n gweithio yn y gwasanaethau cymdeithasol, y sector cyfiawnder troseddol, iechyd ac addysg) at adnoddau a gynhyrchwyd gan eu sefydliadau eu hunain, fel pecyn cyfryngau ar-lein mewnol, a oedd yn cynnwys fideo hyfforddiant rhagarweiniol i staff. Tynnodd gweithwyr cymorth rhianta y tu allan i'r llys sylw at y ffaith bod y canllawiau a'r cyfleoedd hyfforddi a rannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn ddefnyddiol i gefnogi eu gwaith. Nododd gweithwyr iechyd proffesiynol hefyd fod llenyddiaeth wedi'i chynhyrchu gyda'r nod o gefnogi teuluoedd a'i bod yn cael ei hystyried yn ddefnyddiol wrth ymgysylltu â rhieni. Dywedodd 1 gweithiwr proffesiynol fod y canllawiau “wedi helpu pawb i ddeall yn iawn, nad yw hyn yn ymwneud â chosbi”, ond yn hytrach, â chefnogi ac addysgu rhieni i fagu plant yn fwy effeithiol (Llywodraeth Cymru, yn y wasg).

Dywedodd gweithwyr proffesiynol fod y canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022 yn cynnwys adran cwestiynau ac atebion hygyrch ar yr hyn sy'n gyfystyr â chosbi corfforol anghyfreithlon ac yn ymgorffori portreadau cryno o achosion, sy'n modelu sut i

egluro'r gyfraith i rieni mewn sgyrsiau go iawn (Llywodraeth Cymru, yn y wasg). Mae'r ddogfen hefyd yn crynhoi ymchwil allweddol ar niwed cosbi corfforol, ac yn adlewyrchu'r adnoddau y mae gweithwyr proffesiynol yn dweud bod eu hangen arnynt i gael gwared ar letchwithdod a thuedd amddiffynnol mewn trafodaethau â rhieni (Llywodraeth Cymru, 2025d). Dywedodd gweithwyr cymorth rhianta y tu allan i'r llys fod cael iaith ddeddfwriaethol “ddu a gwyn” ochr yn ochr â phwyntiau cyfarwyddyd yn annog mwy o rieni i hunangyfeirio a mynychu rhaglenni, ac mae rhanddeiliaid iechyd ac addysg yn gwerthfawrogi enghreifftiau achos ar gyfer dechrau deialog ar ddisgyblaeth gadarnhaol.

Mae fformat deunyddiau y gellir gweithredu arnynt, fel Magu Plant yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltu a chefnogi (Llywodraeth Cymru, 2017) a chanllawiau Diogelu (Gweithdrefnau Diogelu Cymru, 2025) wedi galluogi integreiddio di-dor i lwybrau gwasanaeth presennol, gan gefnogi ymgysylltu cychwynnol a chyfranogiad parhaus mewn cymorth magu plant. Dywedodd gweithwyr proffesiynol hefyd eu bod wedi mabwysiadu modelau a dulliau penodol i gefnogi eu harferion gwaith eu hunain fel y model Arwyddion Diogelwch, Magu Plant. Rhowch amser iddo a'r Rhaglenni Tair P (Llywodraeth Cymru, yn y wasg).

Fodd bynnag, nid oedd pob gweithiwr proffesiynol yn ymwybodol o ganllawiau a deunyddiau wedi'u teilwra i'w rôl neu eu sector. Eglurodd rhai fod canllawiau a deunyddiau ar eu mwyaf gweledol tua'r adeg gweithredu, ond roedd yn ymddangos eu bod wedi prinhau yn y blynyddoedd dilynol, gyda nifer yn dweud nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gymorth dilynol. Mewn ymateb, datblygodd llawer o awdurdodau lleol eu hadnoddau eu hunain, fel taflenni, negeseuon e-bost a chyfathrebu mewnol, i sicrhau bod gan staff yr wybodaeth angenrheidiol (Llywodraeth Cymru, yn y wasg).

## 3.5 Safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid

Mae'r adran hon yn cyfuno tystiolaeth o bob rhan o'r llenyddiaeth i grynhoi safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid a safbwyntiau proffesiynol. Cyhoeddwyd rhywfaint o'r llenyddiaeth hon cyn gweithredu'r Ddeddf, tra bo tystiolaeth o safbwyntiau a phrofiadau ers gweithredu'r Ddeddf yn dod o'r gwaith ansoddol a wnaed gan Miller Research gyda gweithwyr proffesiynol yn bennaf (Llywodraeth Cymru, yn y wasg).

Roedd erthygl Gofal Cymunedol, a gyhoeddwyd cyn y Ddeddf, yn adrodd am y goblygiadau disgwyliedig ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol yng Nghymru o safbwynt gweithwyr cymdeithasol, gan bwysleisio'r newid mewn fframio cyfreithiol, y tebygolrwydd o newid arferion atgyfeirio a chofnodi, a'r angen am ganllawiau, hyfforddiant a chymorth dargyfeirio clir i rieni (Gofal Cymunedol, 2022).

Mae'r safbwynt hwn yn gyson ag erthygl ymchwil gan Rogers a Thomas (2022), sy'n darparu tystiolaeth o fwy o ymwneud ag amddiffyn plant. Mae'r ymchwil yn gyfuniad o ymchwil bresennol, deddfwriaeth a pholisi'r llywodraeth a llenyddiaeth lwyd. Mae hyn yn cynnwys data a gasglwyd gan Uned Cyswllt Heddlu Llywodraeth Cymru ar droseddau penodol o Ymosod Cyffredin a Chreulondeb tuag at Blant, lle defnyddiwyd cosb resymol fel amddiffyniad neu lle cafodd ei hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau, ochr yn ochr â data cymharol o'r Alban a Seland Newydd. Roedd yr ymchwil yn pwysleisio'r canlyniadau gweithredol tebygol i blismona a phartneriaid amlasiantaeth, yn enwedig cwestiynau ynghylch disgresiwn yr heddlu, llwybrau atgyfeirio, adnoddau a'r angen am gymorth rhianta anhroseddol, dargyfeiriol (Rogers a Thomas, 2022). Felly, tynnodd sylw at y materion sydd fwyaf perthnasol i randdeiliaid proffesiynol sy'n gweithio ar weithredu'r Ddeddf yng Nghymru.

Roedd ymchwil ansoddol 2025 gyda gweithwyr proffesiynol a gynhaliwyd gan Miller yn adlewyrchu canfyddiadau'r ymchwil gynharach hon. Yn benodol, dywedodd gweithwyr cymdeithasol eu bod bellach yn delio â mwy o ymholiadau adran 47 dwys o ran amser a digwyddiadau lefel isel heb anafiadau. Fodd bynnag, disgrifiodd llawer o weithwyr proffesiynol y cynnydd fel un y gellir ymdopi ag ef. (Llywodraeth Cymru, yn y wasg). Yn ystod yr un ymchwil, dywedodd gweithwyr proffesiynol fod prosesau wedi cael eu mireinio a'u hehangu drwy gyllid penodol gan y Grant Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys sy'n galluogi awdurdodau lleol i wreiddio gweithwyr cymorth rhianta mewn gwasanaethau teulu sefydledig, gan helpu i symleiddio'r broses o uwchgyfeirio achosion. Credai rhai rhanddeiliaid fod yr heddlu bellach yn gallu datrys troseddau lefel isel yn gyflym heb ymwneud diangen gan y gwasanaethau cymdeithasol oherwydd dileu'r amddiffyniad cosb resymol.

Hefyd, canfu canfyddiadau o'r un ymchwil hon fod nodi cosb gorfforol yn broses sy'n cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd. Er bod llwybrau i mewn i'r system yn amrywio, dywedodd staff rheng flaen ym maes addysg, iechyd a gofal cymdeithasol mai nhw yn aml sy'n chwarae'r rhan fwyaf arwyddocaol wrth nodi pryderon am y tro cyntaf.

Soniodd y rhai a gyfwelwyd yn yr ymchwil am heriau o ran nodi achosion o gosbi corfforol, a nodwyd y gall amwysedd fod yn broblem, yn enwedig lle mae datgeliadau'n cael eu gwneud gan blant ifanc iawn. Lle mae tystiolaeth glir o anaf, dywedodd gweithwyr proffesiynol ei bod yn haws adnabod yr achosion hyn a gweithredu arnynt. Er y nodwyd rhai heriau, roedd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol yn teimlo'n hyderus yn y dulliau a ddefnyddir i ganfod achosion o gosbi corfforol. Roeddent yn tynnu sylw at werth staff profiadol a chymwys, a chryfder y berthynas rhwng asiantaethau, fel ffactorau sy'n sail i ymarfer effeithiol.

Mae gweithwyr proffesiynol yn adrodd bod mwy o ymgysylltu â rhieni ar reoli ymddygiad yn gadarnhaol wedi helpu i newid eu ffocws i fynd i'r afael â gwraidd y broblem, gan fabwysiadu dull ataliol. Mae dileu unrhyw “ansicrwydd” sy'n ymwneud â chosbi corfforol hefyd wedi hwyluso hyn drwy ddarparu eglurder y mae mawr ei angen i weithwyr proffesiynol a rhieni. Mae ymgyrch Magu Plant yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltu a chymorth gan Lywodraeth Cymru yn 2017 yn enghraifft o'r math o ddeunyddiau clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth y mae gweithwyr proffesiynol wedi canfod eu bod yn ganolog i ddyfnhau ymgysylltiad â rhieni ar ôl cyflwyno'r Ddeddf.

Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid yn tynnu sylw at yr angen am sesiynau cynefino, hyfforddiant gloywi a chynnwys wedi'i addasu'n ddiwylliannol ar gyfer rhai fel ceiswyr lloches a theuluoedd ffoaduriaid. Mae hyn yn atgyfnerthu canfyddiadau cyfweliadau ansoddol â gweithwyr proffesiynol bod cysondeb a chymorth wedi'i dargedu yn dal yn hanfodol i wreiddio'r Ddeddf mewn ymarfer rheng flaen (Llywodraeth Cymru, yn y wasg). Comisiynodd Llywodraeth Cymru Plant yng Nghymru i gynhyrchu adnoddau e-ddysgu i gefnogi gweithwyr proffesiynol i weithredu'r Ddeddf a darparu cyngor ar gyfathrebu â phlant am y Ddeddf. Mae cael yr adnoddau hyn ar gael yn ddigidol yn caniatáu iddynt gael eu gwau i mewn i strwythurau datblygu proffesiynol presennol ar draws sectorau, ond efallai y bydd angen eu hyrwyddo'n well.

# 4 Casgliadau

Mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod cydnabyddiaeth gynyddol o'r manteision ymddygiad cyfyngedig a'r niwed posibl sy'n gysylltiedig â disgyblaeth gorfforol, sy'n cyd-fynd ag ymchwil cyfoes i ddatblygiad plant sy'n pwysleisio strategaethau rhianta di-drais.

Dair blynedd ar ôl gweithredu, mae Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 wedi'i gwreiddio i raddau helaeth fel y bwriadwyd i gefnogi'r nod craidd o gynnal hawliau plant ar yr un pryd â mabwysiadu dull addysgu ac ataliol sy'n osgoi troseddoli rhieni.

## 4.1 Ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac agweddau

Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd bod cosbi corfforol yn anghyfreithlon wedi cynyddu'n raddol ac yn parhau'n sefydlog, sy'n dangos bod ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth wedi bod yn llwyddiannus. Yn ogystal, ceir lefelau uchel o gydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau ymysg y cyhoedd a phlant a phobl ifanc.

Mae tystiolaeth o ddata arolwg omnibws Cymru Beaufort yn dangos cydnabyddiaeth barhaus o'r gyfraith, gydag ymwybyddiaeth wedi'i chymell yn gyson gryf ymysg y cyhoedd. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ddata'r arolwg yn awgrymu bod ymwybyddiaeth ddigymell yn dal yn uchel, mae ychydig yn is mewn rhai grwpiau nag yn y cyfnod ar ôl gweithredu. Gallai hyn awgrymu y byddai dulliau parhaus o atgyfnerthu ymwybyddiaeth y cyhoedd yn fuddiol.

Dywed gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd y byddent hefyd yn elwa o 'sesiynau gloywi' i sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf yn cael eu cynnal waeth beth fo lefel eu statws neu agosrwydd gweithio gyda phlant a theuluoedd.

Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos bod y gred gyhoeddus bod cosbi corfforol yn gallu bod yn angenrheidiol weithiau yn parhau i ostwng. Mae'r duedd hon wedi cael ei nodi ymysg y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu a'r rheini sydd heb gyfrifoldebau gofalu, gan ddangos gostyngiad cyffredinol mewn derbynioldeb. Fodd bynnag, mae lleiafrif o hyd sy'n credu bod cosb gorfforol weithiau'n angenrheidiol neu sy'n camddeall cwmpas y Ddeddf. Mae ymchwil yn awgrymu mai dynion, pobl hŷn a rhai ymatebwyr iau sydd fel arfer yn arddel y safbwyntiau hyn. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod yn werth archwilio ymhellach yr agweddau ymysg y grwpiau hyn, yn enwedig ymysg y rhai a allai fod yn gofalu am blant mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Gallai rhagor o ymchwil i gefnogi'r sylfaen dystiolaeth bresennol gynnwys ymchwil fanylach gyda'r grwpiau oedran 16 i 34 oed a dros 55 oed a gyda phlant a phobl ifanc i archwilio ymhellach eu hagweddau a'u dealltwriaeth o'r Ddeddf yng Nghymru a sut mae hyn yn cael ei wireddu.

## 4.2 Effeithiau ar wasanaethau cyhoeddus

Mae gwasanaethau rheng flaen yn adrodd bod technegau rhianta cadarnhaol ac ymwybyddiaeth rhieni a gofalwyr yn cynyddu. Cynorthwywyd hyn yn fawr drwy greu rôl

gweithiwr cymorth rhianta y tu allan i'r llys, sydd wedi chwarae rhan allweddol wrth weithio'n agos gyda theuluoedd a darparu gwasanaethau ataliol i rieni. Ar ben hynny, mae'r rôl hon wedi lliniaru'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus ehangach drwy ddarparu math arall o gymorth ac addysg a datrysiad i rieni yn hytrach na throseddoli. (Llywodraeth Cymru, yn y wasg).

Mynegodd y rhan fwyaf o'r gweithwyr proffesiynol a arolygwyd yn yr ymchwil ansoddol gan Miller Research (72% o ymatebwyr yr arolwg) hyder yn y prosesau atgyfeirio sydd ar waith (Ibid.). Fodd bynnag, i rai o'r gweithwyr cymorth rhianta y tu allan i'r llys a gyfwelwyd fel rhan o'r ymchwil, roedd yn ymddangos ei bod yn anodd barnu effeithiolrwydd llwybrau atgyfeirio. Nododd y rhai a gyfwelwyd sut roedd prosesau'n amrywio rhwng gwahanol awdurdodau lleol ac oherwydd yr amrywiad hwn rhwng ardaloedd a sefydliadau ledled Cymru, cydnabuwyd felly nad yw proses atgyfeirio safonol ledled Cymru yn debygol o fod yn bosibl nac yn briodol.

Mae'r astudiaeth synthesis hon wedi defnyddio data monitro ar nifer yr atgyfeiriadau gan yr heddlu at gymorth rhianta y tu allan i'r llys, data Gwasanaeth Erlyn y Goron, a data gwasanaethau cymdeithasol sydd ar gael ar hyn o bryd. Gyda'i gilydd, mae'r setiau data hyn yn dangos, lle mae achosion o gosbi plentyn yn gorfforol wedi cael eu canfod, bod rhieni'n cael cynnig cymorth yn hytrach na chael eu gwthio drwy lwybrau erlyn. Mae'n ymddangos bod hyn yn gweithio'n dda o ystyried bod y rhan fwyaf o'r rhai sy'n cael eu cyfeirio gan yr heddlu at gymorth magu plant yn adrodd canlyniadau cadarnhaol mewn holiaduron ôl-gymorth.

Byddai sicrhau bod data'n cael ei gasglu gan bob heddlu yng Nghymru yn gyfle i gasglu rhagor o ddata i gefnogi'r adolygiad 5 mlynedd ar ôl gweithredu'r Ddeddf . Byddai hyn yn rhoi amcangyfrif cenedlaethol cynhwysfawr o nifer yr achosion y rhoddir gwybod i'r heddlu amdanynt lle canfuwyd achos o gosb gorfforol.

Mae canfyddiadau'r ymchwil ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol yn dangos, i lawer o ymarferwyr, yn enwedig y rhai sy'n gweithio ym maes iechyd ac addysg, yr ystyriwyd bod y Ddeddf yn cyd-fynd yn agos â'u cyfrifoldebau presennol a'u cyfrifoldebau diogelu ac na ystyriwyd bod y Ddeddf wedi cael effaith sylweddol ar lwyth gwaith. Fodd bynnag, nododd rhai gweithwyr proffesiynol, fel yr heddlu, gynnydd mewn prosesau sy'n cymryd llawer o amser o ganlyniad i'r Ddeddf. Dywedwyd bod hyn yn broblem yn enwedig yn ystod y cyfnod cychwynnol ar ôl cyflwyno'r Ddeddf. Serch hynny, mae'r heriau cychwynnol hyn wedi cael eu lliniaru'n rhannol gan ganllawiau amlasiantaeth cliriach a llwybrau atgyfeirio mwy manwl.

## 4.3 Safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid

Mae gweithwyr proffesiynol yn dweud bod ganddynt fwy o eglurder a hyder wrth drafod disgyblaeth a hawliau plant gyda theuluoedd. Mae adnoddau cryno i ymarferwyr, fel canllawiau ar ffurf cwestiwn ac ateb, a datganiadau clir ar yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei gwmpasu, wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i leihau tuedd amddiffynnol ymysg rhieni ac annog ymgysylltu â chymorth.

Mae rhanddeiliaid hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd deunyddiau sy'n hygyrch yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol, cynefino ar gyfer staff sydd â phrofiad cyfyngedig o wynebu plant, a sesiynau gloywi rheolaidd i gynnal hyder a chysondeb ar draws sectorau.

Gallai cyfle i hysbysu'r dystiolaeth yn y maes hwn ymhellach gynnwys archwilio dichonoldeb cynnal ymchwil gyda rhieni sydd wedi cael eu cefnogi gan y cynlluniau cymorth rhianta y tu allan i'r llys i ddeall effeithiolrwydd y cymorth o safbwynt rhieni a sut mae hyn yn cefnogi newid ymddygiad.

## 4.4 Crynodeb i gloi

Mae Cymru wedi gwneud symudiad clir, seiliedig ar hawliau, oddi wrth gosbi corfforol, wedi'i gefnogi gan ymwybyddiaeth uchel ymysg y cyhoedd, cymorth magu plant sydd ar gael yn eang, a hyder proffesiynol cynyddol.

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y gweithredu'n mynd rhagddo'n dda, wedi'i gefnogi gan gydweithio rhyngasiantaethol cryf a ffocws clir ar atal ac addysg.

Mae cyfleoedd ymchwil pellach i gefnogi'r adolygiad ôl-weithredu 5 mlynedd, a ddylai adeiladu ar y dystiolaeth bresennol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys gwella pa mor gynhwysfawr yw'r data sydd ar gael, ac ymchwil ansoddol gyda grwpiau penodol i ddeall yn fanylach sut mae'r Ddeddf yn cael ei gwireddu.

Mae'r system yn cymryd mwy a mwy o gamau ataliol a chymesur, ac mae effeithiau gweithredol yn dod i'r amlwg, wrth i ganllawiau a llwybrau aeddfedu. Bydd gwelliannau cymedrol ac ymarferol mewn cyfathrebu, cymorth i'r gweithlu, ac ansawdd data, yn enwedig o ran cysondeb a thegwch, yn helpu i barhau i weithredu'r Ddeddf yn effeithiol, ac yn darparu set gynhwysfawr a chadarn o ddata a thystiolaeth ar gyfer yr adolygiad 5 mlynedd ar ôl gweithredu.

# Cyfeiriadau


Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2018) Cosb Gorfforol Rhiant: Canlyniadau Plant ac Agweddau. (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, 2020, Ar gael yn: Legislation.gov.uk (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025

Deddf Plant 2004, 2004, Ar gael yn: Legislation.gov.uk (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Plant yng Nghymru (n.d.) 'The law on physical punishment of children – resources for practitioners', (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Duckworth, M (2022) 'What ending physical punishment of children in Wales means for social work', Community Care, 1 March 2022, (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Giyoung Yim (2024) 'A decade of progress: corporal punishment' (UNICEF), (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Global Initiative to End All Corporal Punishment of Children (2021).

Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2025) Diogelu plant mewn perthynas â Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, (Cyrchwyd: 19 Tachwedd 2025)

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2024) Arolwg 'Amser i Siarad', (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Llywodraeth Cymru (2017) Ymgysylltu a chymorth rhianta: canllawiau i ddarparwyr, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Llywodraeth Cymru (2019) Agweddau cyhoeddus at gosbi plant yn gorfforol - Ton 2 (Omnibws Beaufort) (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Llywodraeth Cymru (2020) Agweddau cyhoeddus at gosbi plant yn gorfforol - Ton 3 (Omnibws Beaufort) (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Llywodraeth Cymru (2021a) Agweddau cyhoeddus at gosbi plant yn gorfforol - arolwg llinell sylfaen (Omnibws Beaufort) (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Llywodraeth Cymru (2021b) Agweddau cyhoeddus at gosbi plant yn gorfforol - Ton 4 (Omnibws Beaufort) (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Llywodraeth Cymru (2023a) Agweddau cyhoeddus at gosbi plant yn gorfforol - Ton 5 (Mawrth 2022) (Omnibws Beaufort)  (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Llywodraeth Cymru (2023b) Agweddau cyhoeddus at gosbi plant yn gorfforol - Ton 6 (Tachwedd 2022) (Omnibws Beaufort)

Llywodraeth Cymru (2024) Agweddau cyhoeddus at gosbi plant yn gorfforol - Ton 7 (Tachwedd 2023) (Beaufort Omnibus) (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Llywodraeth Cymru (2025a) Agweddau cyhoeddus at gosbi plant yn gorfforol - Ton 8 (Tachwedd 2024) (Omnibws Beaufort) (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Llywodraeth Cymru (2025b) Dulliau rhianta a chosb gorfforol: newidiadau dros amser a chysylltiadau â chanlyniadau datblygiadol plant 2012 i 2022 (Cyrchwyd: 30 Hydref 2025)

Llywodraeth Cymru (2025c) Ymwybyddiaeth plant o ddeddfwriaeth cosbi corfforol a hawliau plant: canfyddiadau'r arolwg Hydref 2024 a Mawrth 2025 i Ebrill 2025 Caerdydd: Llywodraeth Cymru, (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Llywodraeth Cymru (2025d) Grant cymorth rhianta y tu allan i'r llys: canllawiau Caerdydd: Llywodraeth Cymru, (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Llywodraeth Cymru (2025e) Data monitro ar gyfer Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 Caerdydd: Llywodraeth Cymru (Cyrchwyd: 19 Tachwedd 2025)

Llywodraeth Cymru (yn y wasg) Ymchwil ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol

McGuier EA, Kolko DJ, Dubowitz H, Public policy and parent-child aggression: Considerations for reducing and preventing physical punishment and abuse, Aggress Violent Behav. 2022 Gorffennaf i Awst (Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2025)

Rogers, C. (2022) 'Spare the rod! Implications for community safety following abolition of the "reasonable punishment" defence in Wales', (Cyrchwyd: 15 Hydref 2025)

Royal College of Paediatrics and Child Health (RCPCH) (2024)

Sherbert Research (2007) A Study into Children's Views on Physical Punishment (Department for Children Schools and Families and Central Office of Information), (Cyrchwyd: 21 Tachwedd 2025)

Signs of Safety Signs of Safety Model (Accessed 19 November 2025)

Triple P (2025) Parenting Positive Programme, (Cyrchwyd: 19 Tachwedd 2025)

Vittrup, B & Holden, G W (2010) Children's assessments of corporal punishment and other disciplinary practices: The role of age, race, SES, and exposure to spanking Journal of Applied Developmental Psychology, 31(3), 211 i 220, (Cyrchwyd: 21 Tachwedd 2025)

World Health Organisation (2025) It’s time to end physical punishment of kids once for all (Accessed: 11 Tachwedd 2025)

# Atodiad: Ystyriaethau wrth chwilio llenyddiaeth ehangach

Cysyniadau pwnc allweddol a helpodd i lunio'r chwiliad llenyddiaeth am dystiolaeth ehangach.

Termau Chwilio am Elfennau a Llenyddiaeth Pico (Poblogaeth, Ymyrraeth, Cymhariaeth, Canlyniad)

Poblogaeth:

- Plant a Phobl Ifanc
- Rhieni, Gofalwyr a Gweithwyr Proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a/neu rieni

Ymyrraeth

- Deddf Plant Cymru - diddymu cosbi plant a phobl ifanc yn gorfforol

Cymhariaeth

- Cyn gweithredu Deddf Plant Cymru
- Gwledydd lle na ddiddymwyd cosbi plant yn gorfforol

Canlyniadau

- Lefel Cosbi Plant a Phobl Ifanc yn Gorfforol
- Defnydd rhieni a gofalwyr o dechnegau rhianta cadarnhaol
- Mynychu'r Cynllun Cymorth Rhianta y Tu Allan i'r Llys a sgôr gwerthuso ymddygiad ar ôl ymyriad
- Adroddiadau am gosbi corfforol gan riant neu ofalwr i'r gwasanaethau cymdeithasol, heddluoedd ac asiantaethau eraill (e.e. ysgol)